



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government


# **Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER CARTREFI PLANT**

ISBN 0 7504 2903 8

MAI 2002

Hawlfraint y Goron 2002

Datganiad o'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n gymwys  
i gartrefi plant a wnaed gan Weinidog dros lechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad  
Cymru o dan y pwerau a roddwyd gan adran 23(1) o  
Ddeddf Safonau Gofal 2000



Y Gweinidog dros lechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
17 Ebrill 2002

**Mae'r datganiad hwn yn gymwys i gartrefi plant (fel y'u diffinnir gan  
adran 1 o Ddeddf Safonau Gofal 2000) o 22 Ebrill 2002.**

**Gyda'r datganiad, at ddibenion esboniadol yn unig, ceir cyflwyniad i'r  
datganiad cyfan**



## **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
-------------------------	----------

<b>Dehongli</b> .....	<b>5</b>
-----------------------	----------

### **Dewis Gwasanaeth**

Safon 1 Datganiad o ddiben y cartref .....	<b>6</b>
Safon 2 Symud i mewn i'r cartref ac ymadael ag ef .....	<b>8</b>

### **Cynllunio ar gyfer Anghenion a Dymuniadau Unigol**

Safon 3 Cynlluniau Lleoli.....	<b>10</b>
Safon 4 Ymgynghori .....	<b>12</b>
Safon 5 Adolygiadau .....	<b>14</b>
Safon 6 Cofnodion achos unigol plant.....	<b>16</b>
Safon 7 Preifatrwydd a chyfrinachedd.....	<b>17</b>
Safon 8 Paratoi i ymadael â gofal.....	<b>19</b>

### **Ansawdd Bywyd**

Safon 9 Golwg bersonol, dillad, angenrheidiau ac arian personol.....	<b>21</b>
Safon 10 Cysylltiadau .....	<b>23</b>
Safon 11 Addysg .....	<b>25</b>
Safon 12 Hamdden a gweithgareddau .....	<b>27</b>

Safon 13 Cymorth i blant unigol .....	<b>29</b>
Safon 14 Y berthynas â'r plant .....	<b>32</b>
Safon 15 Rheoli ymddygiad .....	<b>33</b>
Safon 16 Darparu a pharatoi prydau.....	<b>36</b>
Safon 17 Iechyd da a lles.....	<b>38</b>
Safon 18 Triniaeth a rhoi meddyginiaethau o fewn y cartref .....	<b>41</b>

### **Staffio**

Safon 19 Fetio staff ac ymwelwyr .....	<b>43</b>
Safon 20 Profiad a chymhwyster staff .....	<b>45</b>
Safon 21 Cymorth i'r staff .....	<b>47</b>
Safon 22 Hyfforddi a datblygu .....	<b>49</b>
Safon 23 Digonolrwydd y staffio.....	<b>51</b>
Safon 24 Ymddygiad staff .....	<b>54</b>

## **Rhedeg a Rheoli'r Gwasanaeth**

Safon 25	Monitro gan y darparydd cofrestredig .....	<b>55</b>
Safon 26	Monitro gweithrediad y cartref .....	<b>56</b>
Safon 27	Rheoli'r busnes .....	<b>58</b>

## **Pryderon, Cwyno ac Amddiffyn**

Safon 28	Gweithdrefnau cwyno a chynrychioli.....	<b>60</b>
Safon 29	Gweithdrefnau amddiffyn plant a hyfforddiant.....	<b>63</b>
Safon 30	Mynd i'r afael â bwlio.....	<b>66</b>
Safon 31	Absenoldeb plentyn heb awdurdod .....	<b>78</b>
Safon 32	Hysbysu ynghylch digwyddiadau arwyddocaol .....	<b>70</b>

## **Yr Amgylchedd Ffisegol**

Safon 33	Lleoliad, dyluniad a maint y cartref .....	<b>71</b>
Safon 34	Llety.....	<b>73</b>
Safon 35	Ystafelloedd a chyfleusterau ymolchi.....	<b>76</b>
Safon 36	Iechyd, diogelwch a sicrwydd .....	<b>78</b>

## **Darpariaethau Arbenigol**

Safon 37	Llety cadarn a llochesi .....	<b>81</b>
----------	-------------------------------	-----------

## **ATODIADAU**

<b>Atodiad 1</b>	Materion polisi sydd i'w cynnwys mewn canllawiau sydd ar gael i'r staff .....	<b>82</b>
<b>Atodiad 2</b>	Rhaglenni hyfforddiant i'r staff.....	<b>85</b>
<b>Atodiad 3</b>	Llyfryddiaeth .....	<b>87</b>

## **CYFLWYNIAD:- Y SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER CARTREFI PLANT**

---

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan Adran 23 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (DSG). Bydd y safonau hyn yn cael eu defnyddio gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC), wrth benderfynu a yw cartrefi plant yn darparu gofal digonol, ac yn bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yno ac fel arall yn cael eu rhedeg yn unol â gofynion perthnasol. Bydd y Cynulliad yn cadw golwg ar y safonau, ac fe gaiff gyhoeddi safonau diwygiedig fel y bo'n briodol.
- 2 Nodir y gofynion perthnasol yn Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 ("y Rheoliadau") ac o dan DSG. Rhaid i benderfyniadau ASGC gael eu cyfiawnhau drwy gyfeirio at y gofynion rheoliadol hyn; ac wrth wneud penderfyniadau rhaid i ASGC gymryd y safonau hyn i ystyriaeth. Rhaid i asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r cynllun rheoliadol, megis y Tribiwnlys perthnasol, a'r Llysoedd, hefyd gymryd y safonau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau o dan DSG. Er enghraifft, mae rheoliad 20 o'r Rheoliadau yn dweud bod "Rhaid i'r person cofrestredig hybu ac amddiffyn iechyd y plant sy'n cael eu lletya mewn cartref plant". Wrth ystyried a fodlonwyd y gofyniad hwn neu beidio rhaid i ASGC gymryd i ystyriaeth safon 17.3 sy'n rhan o safon 17 ynghylch iechyd da a lles. Mae'r cymal hwn yn dweud y dylai fod cynllun iechyd ar gyfer pob plentyn. Os nad oes yna gynllun iechyd ar gyfer plentyn, gall ASGC ddod i'r casgliad nad yw rheoliad 20 wedi'i fodloni a chymryd camau gorfodi priodol.
- 3 Safonau "gofynnol" yw'r rhain, yn hytrach na'r arferion "gorau posibl". Bydd safonau nifer o gartrefi yn uwch na'r safonau cenedlaethol gofynnol ac uchelgais y cartrefi hynny fydd codi eu safon yn uwch eto, a hynny mewn sawl modd.
- 4 Yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, mae "children's home" ("cartref plant") yn cael ei ddiffinio yn Adran 1 o'r DSG fel "establishment which provides care and accommodation wholly or mainly for children". Mae'r rhain yn cynnwys cartrefi preifat, cartrefi gwirfoddol a chartrefi'r cynghorau lleol i blant, ac ysgolion preswyl prif-ffrwd ac arbennig sy'n lletya neu sy'n trefnu llety i unrhyw blentyn am dros 295 o ddyddiau yn y flwyddyn. Bydd rhai cartrefi plant yn sefydliadau arbenigol i blant y mae arnynt angen cymorth therapiwtig neu i blant ag anableddau; gall eraill fod yn unedau cadarn.
- 5 Nid yw safonau gofynnol yn golygu safoni'r ddarpariaeth. Mae'r safonau wedi'u llunio i fod yn gymwys i'r amrywiaeth eang o wahanol fathau o sefydliad sy'n dod o fewn categori cartrefi plant, ac i alluogi cartrefi unigol i ddatblygu eu hethos a'u hymagwedd benodol eu

hunain at ofalu am blant ag anghenion gwahanol yn hytrach na'u hatal rhag gwneud hynny.

- 6 Y gobaith yw y bydd y safonau hyn yn cael eu defnyddio at ystod o ddibenion, ac nid yn unig fel rhan o'r broses reoliadol. Gallant gael eu defnyddio gan ddarparwyr a staff cartrefi wrth hunanasesu eu cartrefi, wrth ddarparu sail ar gyfer cynefino ac hyfforddi staff a gallant roi arweiniad i'r hyn sy'n angenrheidiol wrth sefydlu cartref. Gallant hefyd gael eu defnyddio gan rieni, plant a phobl ifanc fel arweiniad i'r hyn y gallant ddisgwyl i gartref ei ddarparu a'i wneud. Anogir pawb sy'n ymwneud â chartrefi plant mewn unrhyw ffordd i wneud defnydd llawn ar y safonau hyn.

## **Y CYD-DESTUN RHEOLIADOL**

7. Mae'r safonau hyn yn cael eu gwneud o dan adran 23 o'r Ddeddf Safonau Gofal (DSG) gan Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddant yn gymwys o 22 Ebrill 2002 ymlaen, fel y mae darpariaethau'r Rheoliadau yn gymwys, oni ddywedir fel arall.
8. Mae'r DSG yn diwygio'r system reoleiddiol ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'n disodli darpariaethau Deddf Plant 1989 ynghylch cofrestru a rheoleiddio cartrefi plant, a rheoliadau cysylltiedig sydd i'w diddymu, yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol, o 1 Ebrill 2002 ymlaen. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Cynulliad fel yr awdurdod cofrestru gofal cymdeithasol a gofal iechyd annibynnol ar gyfer Cymru, a chaiff y swyddogaethau hyn eu harfer, am y tro, gan adran oddi mewn i'r Cynulliad a elwir yn Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). Bydd yr ASGC yn cymryd drosodd waith cofrestru gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd a oedd yn cael eu cofrestru o'r blaen gan gynghorau lleol ac awdurdodau iechyd. Yn ychwanegol, mae DSG yn darparu ar gyfer estyn ystod y cofrestru i wasanaethau eraill nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, megis asiantaethau gofal cartref, asiantaethau maethu a chanolfannau teuluol preswyl.
- 9 Mae'r DSG yn rhoi ystod eang o bwerau gwneud rheoliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru sy'n ymdrin, ymhlith materion eraill, â rheolaeth, staff, safleoedd, a gweithrediad sefydliadau ac asiantaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Mae adran 23 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad gyhoeddi datganiadau ynghylch safonau gofynnol cenedlaethol y mae'n rhaid i'r ASGC ac eraill eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau (fel y disgrifir ym mharagraff 2). Bydd y safonau hyn, pan fyddant yn gymwys, yn aml yn sail i ddyfarniadau a wneir gan yr ASGC ynghylch ceisiadau i gofrestru a gosod amodau ar gyfer cofrestru, amrywio unrhyw amodau a gorfodi cydymffurfio â'r DSG, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch dileu neu erlyn.



- 10 Bydd yr ASGC yn ystyried felly i ba raddau y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol wrth benderfynu, at ddibenion ei swyddogaethau cofrestru, os yw darpariaeth yn y Rheoliadau wedi'i thorri. Gellir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan ASGC wrth arfer ei swyddogaethau cofrestru i dribiwnlys annibynnol.

## **STRWYTHUR AC YMAGWEDD**

- 11 Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi plant yn canolbwyntio ar ganlyniadau cyraeddadwy ar gyfer plant a phobl ifanc – hynny yw, effaith cyfleusterau a gwasanaethau'r cartref ar yr unigolyn. Mae'r safonau wedi'u grwpio o dan gyfres o bynciau allweddol:

- Dewis Gwasanaeth
- Cynllunio ar gyfer Anghenion a Dymuniadau Unigol
- Ansawdd Bywyd
- Ansawdd Gofal a Thriniaeth
- Staffio
- Cwyno ac Amddiffyn
- Rhedeg a Rheoli'r Gwasanaeth
- Pryderon, Cwyno ac Amddiffyn
- Yr Amgylchedd Ffisegol
- Darpariaeth Arbenigol

Mae pob safon yn ymdrin ag agwedd benodol ar gartref plant ac o'i blaen ceir datganiad o'r canlyniad ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth y bwriedir ei gyrraedd gan y cartref plant. Mae'r rheoliadau a'r safonau wedi'u llunio i hybu cyrhaeddiad y canlyniad hwnnw.

Mae'r 'safon' sy'n ymdrin ag agwedd benodol ar gartref plant mewn gwirionedd wedi'i llunio o set o safonau sef y paragraffau â rhif o dan y blwch 'canlyniad'. Dylid trin pob un o'r paragraffau hyn sydd yn dwyn rhif fel safon ar wahân, at ddibenion DSG, o dan adran 23 o DSG.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae pob un o'r rheoliadau y mae'r set o safonau wedi'u cysylltu â hwy wedi'u rhestru. Er hynny, gall rheoliadau eraill fod yn berthnasol hefyd a dylid cymryd y nodyn fel arweiniad cyffredinol yn hytrach na chyfeiriad cyfreithiol cynhwysfawr. Bwriedir i'r safonau fod yn ansoddol, yn yr ystyr eu bod yn darparu offeryn i farnu ansawdd bywyd ym mhrofiad defnyddwyr y gwasanaethau, ond maent wedi'u llunio hefyd i fod yn fesuradwy.

Weithiau, er mwyn eu deall yn haws, mae'r safonau'n ailadrodd gofynion y rheoliadau. Ni ddylid tybied bod hyn yn golygu bod gofyniad rheoliadol penodol wedi newid ei natur – rhaid i'r person cofrestredig fodloni holl ddarpariaethau'r rheoliadau o hyd.

- 12 Wrth arolygu yn ôl y rheoliadau a'r safonau hyn, bydd yr ASGC yn dilyn methodoleg arolygu gyson a fformat gyson ar gyfer cyflwyno adroddiadau led-led y wlad. Wrth asesu a yw cartref yn bodloni gofyniad rheoliadol penodol neu beidio, bydd yr ASGC yn ystyried a ydyw'n bodloni pob un o'r safonau perthnasol. Bydd y rheolyddion yn edrych am dystiolaeth fod y gofynion yn cael eu bodloni a bod y rhai sy'n derbyn gofal yn y cartref yn mwynhau bywyd o ansawdd dda.
- 13 Y bwriad yw i'r safonau gael eu defnyddio, gan gartrefi a chan yr ASGC, i ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau positif mewn lles, iechyd ac addysg i blant a phobl ifanc, a lleihau'r risgiau i'w lles a'u diogelwch, yn hytrach nag i ganolbwyntio ar strwythurau a systemau er eu mwyn eu hunain. Dylai holl ddarparwyr a staff cartrefi plant anelu at ddarparu'r gofal gorau posibl i'r plant sydd yn eu gofal, ac mae cymryd y safonau i ystyriaeth yn rhan hanfodol, ond rhan yn unig, o'r cyfrifoldeb cyffredinol i ddiogelu ac i hybu lles pob plentyn unigol sy'n cael llety.

### **Y CYD-DESTUN A'R DIBEN**

- 14 Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol hyn, a'r fframwaith rheoliadol y maent yn gweithredu o'i fewn, yn rhan o bolisi ehangach y Cynulliad Cenedlaethol i wella ansawdd y gofal y mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan gynghorau lleol yn ei gael. Mae amrywiaeth o fentrau, y rhaglen Plant yn Gyntaf er enghraifft, wedi'u lansio i hybu gwasanaethau plant.
- 15 Mae'r safonau wedi'u paratoi yn dilyn rhaglen ymgynghori helaeth. Yr oedd hyn yn golygu ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn ogystal â chyfres o ddiwrnodau ymgynghori ar gyfer budd-ddeiliaid yn cynnwys plant a phobl ifanc, rheolyddion cyfredol, darparwyr, prynwyr ac ymarferwyr, ac arbenigwyr mewn darpariaeth therapiwtig a darpariaeth i'r anabl. Sefydlwyd cyfeiriad ar y rhyngwyd er mwyn i'r rhai nad oeddent yn gallu dod i'r sesiynau hynny fwydo eu sylwadau iddi, ac ymgwymerwyd ag adolygiad helaeth o'r dogfennau. Mae'r safonau hyn yn ymgorffori'r farn a ddatganwyd yn ystod yr ymgynghori, a bwriadwyd iddynt fod yn realistig, yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw.

## DEHONGLI

Yn y datganiad hwn-

ystyr 'Deddf 1989' yw Deddf Plant 1989;  
ystyr 'DSG' yw Deddf Safonau Gofal 2000;  
ystyr 'ASGC' yw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru;  
ystyr 'person cofrestredig' yw darparrydd cofrestredig neu reolwr cofrestredig;  
ystyr 'y rheolwr' yw

(i) os nad yw'r person sy'n rhedeg y cartref yn rheolwr hefyd, y rheolwr  
cofrestredig

(ii) os yw'r person sy'n rhedeg y cartref yn rheolwr hefyd, y person hwnnw.

ystyr 'y Rheoliadau' yw Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002;  
onid ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb, mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at  
reoliad yn Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002.

# DEWIS GWASANAETH

## SAFON 1 - DATGANIAD O DDIBEN Y CARTREF

### Y CANLYNIAD

**Mae plant a phobl ifanc yn cael arweiniad i'r gwasanaethau y gallant eu disgwyl oddi wrth y cartref ac yn gwybod pa rai ydynt, sut y byddant yn derbyn gofal a gyda phwy y maent yn debyg o rannu ystafell, ac mae datganiad clir ynghylch sut mae'r cartref yn gweithredu ar gael i rieni ac i bobl eraill y mae arnynt angen yr wybodaeth hon.**

- 1.1 Mae gan y cartref ddatganiad ysgrifenedig o'i ddiben ac arweiniad i blant, sy'n ddisgrifiad manwl-gywir o'r hyn y mae'r cartref yn anelu at ei wneud dros y plant y mae'n eu lletya, a sut mae'r gofal yn cael ei ddarparu.
- 1.2 Mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r holl wybodaeth y mae ei hangen yn Atodlen 1 i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002.
- 1.3 Mae'r Datganiad o Ddiben ar ffurf a all gael ei deall gan y gweithwyr cymdeithasol sy'n lleoli plant yno, y staff, ac unrhyw riant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn. Ar gyfer rhai plant anabl, plant ifanc a'r rhai nad yw Saesneg yw eu dewis iaith, ceisir cael dulliau amgen o gyflwyno'r datganiad o ddiben (ee Makaton, lluniau, recordio tâp, cyfieithu i iaith arall).
- 1.4 Mae pawb sy'n gweithio yn y cartref yn ymwybodol o gynnwys y datganiad o ddiben, ac mae copi ohono ar gael yn hwylus.
- 1.5 Mae arweiniad y plant i'r cartref yn addas ar gyfer y plant yn y cartref, yn cynnwys crynodeb o'r hyn y mae'r cartref yn ceisio ei wneud ar gyfer y plant, ac mae'n cael ei ddarparu i blant wrth iddynt gael eu derbyn i'r cartref ac mae ar gael yn hwylus wedyn.
- 1.6 Mae arweiniad y plant ar gael mewn fformatau y gellir eu deall gan blant sy'n cael eu lletya yn unol â datganiad o ddiben y cartref, gan gymryd iaith, anabledd, oedran a deall i ystyriaeth.
- 1.7 Mae arweiniad y plant yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall plentyn sicrhau mynediad i eiriolydd annibynnol, sut i gyflwyno cwyn a sut i gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru.
- 1.8 Mae polisiâu a gweithdrefnau'r cartref ac unrhyw ganllawiau ysgrifenedig i'r staff yn adlewyrchu'r datganiad o ddiben yn fanwl gywir.
- 1.9 Mae'r darparwydd cofrestredig yn cymeradwyo datganiad y cartref o'i ddiben yn ffurfiol, ac yn ei adolygu, ei ddiweddarau a'i addasu pan fo

angen ac o leiaf bob blwyddyn. Gwneir newidiadau mewn ymgynghoriad â'r plant, yr awdurdodau lleoli staff ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb riant. Hysbysir unrhyw newid neu addasiad i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru cyn eu gweithredu.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben ac arweiniad y plant

Rheoliad 5 – adolygu'r datganiad o ddiben ac arweiniad y plant

## **SAFON 2 - SYMUD I MEWN I'R CARTREF AC YMADAEL AG EF**

### **Y CANLYNIAD**

**Mae'r plant yn gallu symud i'r cartref ac ymadael ag ef mewn modd cynlluniedig a sensitif**

- 2.1 Mae yna weithdrefnau ar gyfer cyflwyno plant i'r cartref, y staff a'r plant sy'n byw yno a'r rheiny'n ymdrin â derbyniadau cynlluniedig ac, os ydynt yn cael eu caniatáu o dan ddatganiad y cartref o'i ddiben, â derbyniadau argyfwng.
- 2.2 Mae disgwyliadau'r cartref o'r plentyn a'r hyn y gall ei ddisgwyl oddi wrth y staff yn cael eu hesbonio'n glir cyn derbyn y plentyn lle bynnag y bo modd, ac os nad oes modd maent yn cael eu hesbonio yn union ar ôl derbyn y plentyn, gan eu hailadrodd mor aml ag y bydd ei angen i sicrhau bod y plentyn yn eu deall yn llawn.
- 2.3 Anogir y plant i ddod â'u hoff eiddo gyda hwy wrth symud i mewn i'r cartref. Rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd y gall plant gadw anifeiliaid anwes a pha mor ymarferol yw dod ag eitemau gwerthfawr.
- 2.4 Mae yna weithdrefnau ar gyfer plant sy'n ymadael â'r cartref, a hynny ar gyfer ymadawiadau cynlluniedig ac ymadawiadau mewn argyfwng.
- 2.5 Wrth symud i'r cartref neu ymadael ag ef, mae'r plant yn cael gwybodaeth ysgrifenedig a llafar sydd wedi'i chynllunio i fod yn ddifyr a dealladwy, ac yn cyflwyno ffeithiau y mae arnynt angen ac awydd eu cael. Dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael mewn ffurfiau sy'n briodol i iaith, anabledd, oedran a deall y plant<sup>1</sup>
- 2.6 Nid yw'r person cofrestredig yn derbyn plant mewn argyfwng oni bai fod hynny wedi'i ddarparu ar ei gyfer yn ei ddatganiad o ddiben, a bod y cartref, adeg derbyn y plentyn, yn gallu rhoi roi gwely a chyfleusterau priodol.
- 2.7 Mae adolygiad ynghylch priodoldeb derbyn y plentyn yn cael ei gychwyn cyn gynted â phosibl, heb fod byth yn hwyrach na 72 awr, ar ôl unrhyw dderbyniad mewn argyfwng. Bydd yr adolygiad yn ystyried ai lles gorau'r plentyn yw parhau yn y cartref, neu ei symud i leoliad gwahanol.
- 2.8 Mae anghenion y plentyn a'r effeithiau tebygol a gaiff derbyniad y plentyn ar y grwp presennol o breswylwyr yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau ar dderbyn y plentyn i'r cartref.

### Y gofynion rheoliadol perthnasol

---

<sup>1</sup> Gweler safon 1.3, Arweiniad i Blant

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben ac arweiniad y plant  
Rheoliad 11 – hybu lles

# CYNLLUNIO AR GYFER ANGHENION A DYMUNIADAU UNIGOL

## SAFON 3 - CYNLLUNIAU LLEOLI

### Y CANLYNIAD

**Mae anghenion plant yn cael eu hasesu yn effeithiol ac yn gynhwysfawr ac mae cynlluniau lleoliad ysgrifenedig yn amlinellu sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu a'u gweithredu.**

- 3.1 Mae'r cynllun lleoli ar gyfer pob plentyn yn nodi'n glir sut y mae anghenion y plentyn sydd wedi'u hasesu i gael eu bodloni.
- 3.2 Mae'r cynllun lleoli yn nodi:
- amcanion manwl y lleoliad a sut y maent i gael eu bodloni gan y darparwydd cofrestredig ar sail o ddydd i ddydd
  - y cyfraniad sydd i'w wneud gan staff y cartref, a
  - sut y mae effeithiolrwydd y lleoliad i'w asesu mewn perthynas â phob prif elfen yn y cynllun.
- 3.3 Mae'r cynllun lleoli yn ymdrin â'r canlynol:
- anghenion iechyd a hybu iechyd
  - anghenion gofal gan gynnwys diogelu a hybu lles
  - anghenion corfforol ac emosiynol
  - anghenion addysg a thargedau cyrhaeddiad
  - anghenion diwylliant, crefydd, iaith a hil a sut y cânt eu diwallu
  - anghenion hamdden
  - trefniadau ar gyfer cysylltiadau â'r teulu, cyfeillion a phobl eraill sy'n arwyddocaol.
- 3.4 Mae'r cynllun lleoli yn gyson â phob cynllun ar gyfer gofal y plentyn a baratoir gan awdurdod lleoli (os oes cynlluniau eraill yn ymwneud â'r uchod, gall y cynllun lleoli dynnu oddi ar un o'r dogfennau sy'n bodoli, ac ni fydd angen dyblygu'r gwaith).
- 3.5 Mae cynllun lleoli pob plentyn yn cael ei fonitro gan ei weithiwr allweddol yn y cartref sy'n sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu gweithredu wrth ofalu am y plentyn hwnnw o ddydd i ddydd ac sy'n trafod unrhyw newidiadau gyda'r plentyn. Mae'r gweithiwr allweddol yn rhoi canllawiau a chymorth unigol i'r plentyn hefyd ac yn trefnu'n rheolaidd fod ganddo amser ar gael i'w roi i'r plentyn i alluogi'r plentyn i ofyn am ganllawiau, cyngor a chymorth ar unrhyw fater. Pan nad yw'r



cartrefi'n gweithredu cynlluniau gweithio allweddol, mae eu cyfrifoldebau hwy yn mynd i'r person cofrestredig neu i aelod arall o'r staff a enwebwyd gan y person cofrestredig.

- 3.6 Mae dymuniadau'r plentyn yn cael eu ceisio a'u cymryd i ystyriaeth wrth ddewis eu gweithiwr allweddol a chymerir eu dymuniadau i ystyriaeth os gofynnant am newid eu gweithiwr allweddol neu'r cyfryw person a nodir yn 3.5 uchod. Darperir cymorth i blant anabl sydd ag anawsterau cyfathrebu i'w helpu i chwarae rhan weithredol wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau.
- 3.7 Mae'r person cofrestredig yn ceisio sylwadau plant unigol, eu rhieni (os nad yw hynny'n amhriodol yn unol â'r Rheoliadau) a'r gweithiwr cymdeithasol yn yr awdurdod sy'n eu lleoli ar gynnwys eu cynllun lleoliad a'i weithredu, a hynny'n rheolaidd ac yn aml. Mae'n cymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth wrth gychwyn y cynllun a gwneud newidiadau iddo ac yn adrodd ar ei hynt yn yr adolygiad.
- 3.8 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan y cartref gopi o bob dogfen berthnasol ar gyfer pob plentyn yn ei ofal. Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol dylai hyn gynnwys pob dogfen LAC (cylchlythyr awdurdodau lleol), cynllun addysg personol a chynllun iechyd personol y plentyn. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod plant yn y cartref yn gwybod y gallant eu gweld a'u trafod a chyfrannu iddynt<sup>1</sup>.

### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

---

<sup>1</sup> Mae'r person cofrestredig yn cael ei eithrio rhag y gofyniad hwn os yw lefel ddealltwriaeth y plentyn yn ei gwneud yn amhosibl iddo fod yn ymwybodol o'r cynlluniau. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r person cofrestredig ddangos mai dyna'r sefyllfa. Mae'r person cofrestredig yn cael ei eithrio hefyd rhag y gofyniad hwn os yw mynediad at gofnodion yn cael ei gyfyngu gan Ddeddf Diogelu Data 1998, neu gan gyfraith arall.

## SAFON 4 - YMGYNGHORI

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau am eu bywydau ac i ddylanwadu ar sut y caiff y cartref ei redeg**

- 4.1 Mae barn y plant, a barn eu teuluoedd neu'r bobl eraill sy'n arwyddocaol<sup>1</sup> iddynt, yn cael ei cheisio ynghylch penderfyniadau allweddol sy'n debyg o effeithio ar eu bywyd beunyddiol a'u dyfodol. Mae yna systemau ar gyfer gwneud hyn, megis cytundebau ysgrifenedig, cyfweiliadau preifat, sesiynau gweithwyr allweddol, cyfarfodydd i'r plant neu gyfarfodydd i'r ty.
- 4.2 Mae'r systemau'n cymryd i ystyriaeth anghenion cyfathrebu gwahanol gan y plant ac ni thbyr bod unrhyw blentyn yn analluog i gyfathrebu ei sylwadau.
- 4.3 Mae'r staff yn cymryd i ystyriaeth gefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol ac ieithyddol y plant a'u teuluoedd.
- 4.4 Mae pob plentyn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn gallu mynd i wasanaethau eu hargyhoeddiad crefyddol, cael eu hyfforddi ynddo, a chadw unrhyw un o'i ofynion (gan gynnwys gwisg, deiet neu fel arall).
- 4.5 Mae sylwadau arwyddocaol a'r farn a fynegir gan blant yn cael eu cofnodi'n brydlon yn eu cofnodion achos.
- 4.6 Mae barn a sylwadau'r plant ar bob mater sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys materion beunyddiol, yn cael eu canfod yn rheolaidd ac yn aml ac nid yn cael eu cymryd yn ganiataol.
- 4.7 Mae'r plant, eu teuluoedd a phobl eraill sy'n arwyddocaol iddynt yn cael adborth ar ôl ymgynghori.
- 4.8 Mae barn a sylwadau rhieni'r plant yn y cartref yn cael eu canfod yn rheolaidd ac yn aml, gan gynnwys eu sylwadau ar y canlynol:
  - gofal plant yn y cartref a gweithrediaeth y cartref
  - digonolrwydd y staff sy'n gofalu am blant ar unrhyw bryd
  - digonolrwydd y lle a'r dodrefn yn ystafelloedd gwely'r plant
  - preifatrwydd y cyfleusterau ymolchi,
  - y cyfleusterau ar gyfer cysylltu â phobl arwyddocaol ym mywydau'r plant a

<sup>1</sup> Mae 'bobl eraill sy'n arwyddocaol' yn cyfeirio at rywun y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn credu eu bod yn bwysig yn eu bywydau, er enghraifft, cyfaill agos y teulu, rhiant bedydd, eiriolydd annibynnol, athro neu athrawes neu bartner.

- synnwyr o ryddid personol y plant.
- 4.9 Os nad yw'n briodol, yn unol â'r rheoliadau, ymgynghori â theulu'r plentyn a chynnwys y teulu, mae'r staff yn esbonio pam i'r plant, gan ymgynghori â phobl eraill sy'n arwyddocaol iddynt neu ymwelydd annibynnol, fel y bo'n briodol.
- 4.10 Mae dulliau addas yn cael eu darparu yn fynych i unrhyw blentyn sydd ag anawsterau cyfathrebu i fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau ynghylch ei ofal a'i driniaeth yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys trefnu bod oedolion gwahanol ar gael sy'n deall sut mae'r plentyn yn cyfathrebu.
- 4.11 Mae'r ffordd y mae'r cartref yn gweithredu yn cynyddu annibyniaeth pob plentyn a'i gyfle i wneud dewisiadau pob dydd.
- 4.12 Mae'r staff yn ceisio barn y swyddogion cyswllt perthnasol yn yr awdurdodau sy'n lleoli'r plant yn rheolaidd ac yn aml am ofal y plant o dan sylw, ac am weithrediaeth gyffredinol y cartref.
- 4.13 Mae barn y plant, rhieni a'r awdurdod lleoli yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu gweithrediaeth y cartref a gwneud unrhyw newid angenrheidiol iddi.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

- Rheoliad 4 – datganiad o ddiben ac arweiniad y plant
- Rheoliad 11 – hybu lles
- Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn
- Rheoliad 19 – cadw defodau crefyddol
- Rheoliad 24 – cynrychioliadau a chwynion
- Rheoliad 33 – adolygu ansawdd y gofal

## SAFON 5 - ADOLYGIADAU

### Y CANLYNIAD

**Mae anghenion, datblygiad a chynnydd y plant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yng ngoleuni eu gofal a'u cynnydd yn y cartref.**

- 5.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod staff y cartref yn cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad o gynllun lleoliad pob plentyn ac, ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, y cynllun gofal. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yn y broses adolygu a bod y canlyniadau y cytunir arnynt mewn adolygiadau yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen fel rhan o ofal y plentyn o ddydd i ddydd.
- 5.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod pob agwedd o'r cynllun ar gyfer y plentyn, y mae'r cartref yn gyfrifol am ei weithredu, yn cael eu cyflawni o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r person cofrestredig yn rhoi gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn a phersonau perthnasol eraill os nad yw'r cartref yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau drwy weithredu'r cynllun.
- 5.3 Mae'r person cofrestredig yn cynorthwyo pob plentyn i gyfrannu ei farn a'i dymuniadau yn y broses adolygu, gan gynnwys cytuno ar amseriad a lleoliad adolygiadau o'r fath, ac mae'n cynorthwyo gyda'r trefniadau bod eiriolydd yn cymryd rhan yn unol ag anghenion a dymuniadau'r plentyn. Os bydd oedran, anabled neu ffactorau eraill yn ei gwneud yn anodd cymryd rhan yn uniongyrchol, mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r plentyn, i'r graddau y gwyddys beth ydynt, yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
- 5.4 Mae'r person cofrestredig yn cysylltu â'r awdurdodau sy'n lleoli'r plant i ofyn am adolygiad statudol ar gyfer unrhyw blentyn yn ei bryd os nad yw'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn wedi trefnu'r adolygiad, neu os bydd adolygiad yn angenrheidiol (ee newid yn amgylchiadau'r plentyn neu fethiant yn y cynllun cyfredol).
- 5.5 Mae canlyniad pob adolygiad statudol yn cael ei gofnodi a'i osod ar gofnod achos y plentyn. Mae gofal ar gyfer y plentyn o ddydd i ddydd yn cael ei newid yn ôl yr angen i adlewyrchu canlyniad pob adolygiad, ac mae'r unigolion sy'n gyfrifol am gymryd camau yn y cartref yn sgil adolygiadau wedi'u henwi'n glir.
- 5.6 Mae staff y cartref, gan gynnwys pan fo'n briodol weithiwr allweddol y plentyn, yn cyfrannu'n effeithiol at bob adolygiad ar gynnydd ac unrhyw anawsterau sydd gan y plentyn yn y lleoliad. Mae'r staff yn mynd i gyfarfodydd ynglyn â'r plentyn ar gais yr awdurdod sy'n lleoli'r plentyn hwnnw; yn darparu gwybodaeth berthnasol, os gofynnir amdani, i'r

awdurdod sy'n lleoli'r plentyn ac yn amlygu cyraeddiadau'r plant yn benodol.

- 5.7 Trefnir bod copïau ysgrifenedig o'u hadolygiadau ar gael i'r plant, a chânt eu helpu i'w deall ac i'w storio'n ddiogel. Pan fydd angen, caiff yr adolygiadau eu cyfieithu neu eu cyfathrebu ar ffurf sydd orau ar gyfer y plentyn.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

## SAFON 6 - COFNODION ACHOS UNIGOL PLANT

### Y CANLYNIAD

**Mae anghenion, datblygiad a chynnydd y plant yn cael eu cofnodi er mwyn adlewyrchu eu hunigolrwydd.**

- 6.1 Mae gan bob plentyn gofnod parhaol preifat a diogel o'u hanes a'u cynnydd a chaiff y plentyn, a rhieni'r plentyn fel y bo'n briodol, weld y cofnod hwnnw yn unol â'r gofynion cyfreithiol.
- 6.2 Mae ffeil pob plentyn yn cael ei storio'n ddiogel ac mae'n cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol y manylir arni yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau.
- 6.3 Rhoddir gwybod i'r plant y cânt ddarllen eu ffeiliau (ac eithrio gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth am drydydd partion oni chafwyd caniatâd gan y partion perthnasol i'w dangos neu os gellir yn gyfreithiol ei hepgor), ac eir ati i'w hannog i wneud hynny ac, os oes angen, eu cynorthwyo i wneud hynny ac i gywiro gwallau a datganiadau personol.

### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 28 – cofnodion

## SAFON 7 - PREIFATRWYDD A CHYFRINACHEDD

### Y CANLYNIAD

**Mae preifatrwydd plant yn cael ei barchu a chaiff gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.**

- 7.1 Mae'r cartref a'r staff yn parchu dymuniad pob plentyn i gael preifatrwydd a chyfrinachedd yn unol â medrau magu plant da a'r angen i amddiffyn y plentyn.
- 7.2 Mae'r person cofrestredig yn darparu canllawiau gweithdrefnol ar breifatrwydd a chyfrinachedd sy'n ymdrin â'r canlynol:
- cyfle i'r staff ac eraill i weld cofnodion achosion
  - trosglwyddo gwybodaeth sydd â goblygiadau ar gyfer amddiffyn plant
  - manylion ymarferol am sut i fynd i mewn i ystafelloedd y plant
  - mynd i mewn/torri ar draws heb ganiatâd mewn argyfwng neu os bernir bod y plant mewn perygl
  - trefniadau ar gyfer y gawod a'r baddon a defnyddio'r ty bach
  - materion personol megis y mislif a golchi dillad
  - gofal personol agos, gan gynnwys rhoi meddyginiaeth a gweithdrefnau clinigol ymyrol lle bo'n gymwys
- 7.3 Mae'r staff yn gwybod sut i ymdrin â gwybodaeth a rhannu gwybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt yn gyfrinachol.
- 7.4 Mae lleoliad y ffôn(ffonau) a'r trefniadau ar gyfer talu yn gyfleus, yn breifat, yn ymarferol ac ar gael i blant anabl os oes angen hynny. Mae'r trefniadau ynghylch preifatrwydd ac argaeledd sy'n wahanol i'r uchod yn cael eu cytuno mewn cynlluniau preswyl ac mae'r plant yn eu deall.
- 7.5 Mae'r staff yn sensitif i faterion gender, yn arbennig felly wrth ymdrin â phlant o'r rhyw arall.
- 7.6 Os yw'r cartref yn lletya plant y mae arnynt angen cymorth y staff gyda gofal personol agos, gweithrediadau'r corff neu symud a thrafod, mae'r holl staff sydd yn ymwneud â hyn wedi cael hyfforddiant priodol a chanllawiau ysgrifenedig clir a phriodol ar ddarparu'r gofal hwnnw, a'r rheiny'n cael eu dilyn yn ymarferol. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r ffiniau y dylid cadw atynt (gan gynnwys canllawiau ar roi gofal o'r fath i blant o'r rhyw arall), y gofyniad i alluogi'r plentyn o dan sylw, os yw'n ymarferol, i fynegi dewisiadau a'r gofyniad i ofyn am gydsyniad y plentyn ynghylch darparu gofal personol agos ar eu cyfer.

7.7 Mae'r person cofrestredig yn darparu canllawiau i'r staff ac i'r plant ar ba bryd y gall fod angen chwilio eiddo'r plentyn. Dim ond yn unol â'r canllawiau, a dim ond ar sail eglur, sy'n cael ei esbonio i'r plentyn o dan sylw, y mae'r eiddo yn cael eu chwilio. Mae pob chwilio o'r fath yn cael ei ddogfennu gan ddangos amser a dyddiad y chwilio a'r rheswm amdano, gan nodi a ddeuwyd o hyd i unrhyw beth, pwy a gyflawnodd y chwilio a phwy oedd yn bresennol ar y pryd. Dylai cofnodion o'r fath gael eu llofnodi gan bawb sy'n bresennol.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 15 – cysylltiadau a'r cyfle i gyfathrebu

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant

Rheoliad 28 – cofnodion

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd



## SAFON 8 - PARATOI I YMADAEL Â GOFAL

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn cael gofal a chymorth sy'n helpu i'w paratoi i fyw fel oedolion.**

- 8.1 Ar gyfer plant a fydd yn ymadael â gofal yn y 12 mis nesaf, mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cynllun lleoli'r plentyn yn pennu ar wahân y gefnogaeth a'r cymorth y byddant yn eu cael i alluogi pontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn a bod hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol.
- 8.2 Mae cynllun lleoliad y plentyn yn cyflenwi'r cynllun gofal ac unrhyw gynllun pontio i blant ag anabledau ac anghenion addysgol arbennig ac, i blant sy'n gymwys<sup>1</sup>, mae'n gyson a'r cynllun llwybr ac yn cyfrannu ato.
- 8.3 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y cartref yn gweithredu cynllun lleoliad y plentyn ac unrhyw agweddau ar y cynllun llwybr sy'n gyfrifoldeb y cartref ar gyfer unrhyw blentyn y mae disgwyl iddo ymadael â gofal neu symud i fyw'n annibynnol o fewn y flwyddyn ddilynol.
- 8.4 Mae'r cynllun lleoliad y plentyn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y canlynol yn glir:
- addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
  - sicrhau llety diogel a fforddiadwy;
  - unrhyw gymorth y mae ei angen ar blentyn anabl;
  - cymorth ariannol i alluogi'r plentyn i sefydlu a chadw llety annibynnol os yw'n gymwys;
  - hawlio budd-daliadau lles os gwelir bod angen hynny a'u bod yn gymwys;
  - addysg iechyd a gofal iechyd arbenigol a chyffredinol, a gwasanaethau arbenigol eraill megis cwnsela;
  - cadw'r rhwydweithiau pwysig sydd eisoes yn bodoli fel y'u diffinnir gan y person ifanc, a all gynnwys y cartref plant;
  - creu rhwydweithiau newydd o gyngor a chymorth os yw hynny'n gymwys;
  - diddordebau hamdden priodol;
  - ceisio cymorth os bydd problemau'n codi.

<sup>1</sup> O dan ddarpariaethau Deddf Plant 1989 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000.

- 8.5 Mae'r cynlluniau yn cael eu hysgrifennu drwy gytundeb â'r plentyn, sy'n cael copi o'r cynllun, ac maent yn cymryd i ystyriaeth unrhyw anableddau a all fod gan y plentyn a chefnidir crefyddol, hiliol, ieithyddol a diwylliannol y plentyn.
- 8.6 Wrth baratoi plant sy'n ymadael â gofal neu'n mynd i fyw'n annibynnol, rhoddir sylw penodol i'w hanghenion parhaus i wneud y canlynol:
- meithrin a chadw perthnasoedd ag eraill,
  - deall eu rhywioldeb a sefydlu perthnasoedd cymdeithasol a rhywiol positif a gofalgar,
  - datblygu hunan-barch,
  - paratoi ar gyfer byd gwaith a/neu addysg bellach neu uwch,
- 8.7 Mae bywyd beunyddiol y cartref yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn yn y cartref i ddatblygu'r wybodaeth a'r medrau y mae ar y plentyn eu hangen ar gyfer byw'n annibynnol. Mae'r cyfleoedd hynny yn briodol ar gyfer oedran ac anghenion y plentyn o dan sylw.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 18 – addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd

## ANSAWDD BYWYD

### SAFON 9 - GOLWG BERSONOL, DILLAD, ANGENRHEIDIAU AC ARIAN POCED

#### Y canlyniad

**Mae'r plant yn cael eu hannog a'u galluogi i ddewis eu dillad a'u hangenrheidiau personol eu hunain i sicrhau bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu'n llawn.**

- 9.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod plant yn gallu arfer eu dymuniadau eu hunain wrth ddewis dillad ac angenrheidiau personol.
- 9.2 Mae anghenion y plant o ran dillad ac angenrheidiau personol, gan gynnwys bagiau, yn cael eu diwallu'n llawn. Trefnir bod cyllid digonol ar gael i ddiwallu'r anghenion hyn.
- 9.3 Gall y plant arddel dewis o ran y dillad a'r angenrheidiau personol a brynant, a'u prynu drwy drefniadau siopa arferol. Mae staff yn mynd gyda'r plant iau ac mae plant hyn yn cael dewis rhwng siopa ar eu pen eu hunain neu gyda chyfarwyddyd y staff (yn ddarostyngedig i asesiad risg ac anghenion a galluoedd y plentyn).
- 9.4 Mae dillad ac angenrheidiau personol addas a derbyniol yn cael eu prynu i unrhyw blentyn nad yw'n dymuno, neu nad yw'n gallu, prynu ei rai ei hun.
- 9.5 Mae disgwyliadau diwylliannol, hiliol, ethnig neu grefyddol ynghylch dewis dillad neu angenrheidiau personol yn cael eu cefnogi a'u hybu.
- 9.6 Gall y plant gadw eu dillad a'u hangenrheidiau personol a'u deunyddiau ymolchi heb i neb arall gael eu defnyddio.
- 9.7 Mae'r posibilrwydd o hunan-niwed neu gam-drin angenrheidiau personol neu ddeunyddiau ymolchi (e.e. aerosolau a raseli) yn cael ei ystyried ar gyfer pob plentyn, ac mae'r cyfle i gael gafael arnynt yn cael ei reoli, os oes angen, yn ddarostyngedig i asesiad risg.
- 9.8 Mae gan fenywod ifanc eu cyflenwad eu hunain o damponau a thyweli misglwyf ac nid oes rhaid iddynt ofyn amdanynt o stoc ganolog.
- 9.9 Mae'r staff yn rhoi cyngor priodol i'r plant ynghylch defnyddio deunyddiau ymolchi, colur a thamponau a thyweli misglwyf.
- 9.10 Mae yna bolisi ar lwfansau personol sy'n cael ei weithredu'n ymarferol ac mae'r plant yn gwybod amdano. Mae'r polisi yn egluro diben y gwahanol lwfansau, y trefniadau i'r plant i'w cael, a'r rhesymau pam y gellir eu hatal, y monitro ar eu defnydd a sut y dylai ceisiadau am lwfansau arbennig gael eu gwneud a sut y dylid penderfynu arnynt.

9.11 Mae arian y plant yn cael ei gadw'n ddiogel ar eu cyfer ac mae'r plant yn llofnodi'r cofnod a wneir yn eu cofnodion achos. Caiff plant eu hannog i reoli eu cyllid eu hunain drwy help gyda chyllidebu a bancio, ac maent yn cael cymaint o ryddid â phosibl wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwario eu harian poced neu eu henillion.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 14 – darparu dillad, arian poced ac angenrheidiau personol

Rheoliad 17 – rheoli ymddygiad, disgyblu ac atal

Rheoliad 28 – cofnodion achos y plant

## SAFON 10 - CYSYLLTIADAU

### Y canlyniad

**Gall y plant gadw cysylltiad adeiladol â'u teuluoedd, eu cyfeillion a phobl eraill sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn eu bywydau.**

- 10.1 Mae cymorth ymarferol yn cael ei ddarparu i'r plant ar gyfer cysylltiad adeiladol â rhieni, teulu a phobl arwyddocaol eraill, ac mae'r plant yn cael eu hannog i gadw'r cysylltiad.
- 10.2 Mae trefniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad yn cael eu trafod adeg derbyn y plentyn a manylir arnynt yn y cynllun lleoliad. Mae'r cysylltiadau hynny yn cael eu hwyluso drwy bob dull ymarferol sydd ar gael, gan gynnwys ymweliadau, galwadau ffôn, e-byst a llythyron.
- 10.3 Mae unrhyw gyfyngiadau ar gysylltiadau, neu fonitro cysylltiadau (ee galwadau ffôn):
- yn cael eu trafod gyda'r plentyn ac
  - yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn cael eu trafod gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a/neu unrhyw berson arwyddocaol, neu
  - os na chafodd y plentyn ei leoli gan awdurdod lleol, yn cael eu trafod gyda rhiant y plentyn neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant
  - yn cydymffurfio â gofynion eraill rheoliad 15(6).
- 10.4 Mae unrhyw gyfyngiadau ar gysylltiadau yn cael eu cofnodi'n glir yn ysgrifenedig ar ffeil y plentyn ac mae'r cyfyngiad yn ddarostyngedig i adolygu cyson.
- 10.5 Darperir canllawiau ysgrifenedig ar gyfer y staff sy'n egluro:
- hawliau'r plant, y rhieni ac eraill i gadw cysylltiad;
  - trefniadau ar gyfer goruchwyllo ymweliadau neu ddulliau eraill o gysylltu lle mae angen hynny i ddiogelu'r plentyn neu blant eraill yn y cartref;
  - pryd a sut i annog rhieni, perthnasau a chyfeillion i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref.
- 10.6 Mae sylwadau a dymuniadau'r plentyn ar natur a graddau'r cysylltiad yn cael eu parchu a'u cofnodi yn ffeil bersonol y plentyn.
- 10.7 Cedwir cofnod o'r cysylltiadau a'r ymweliadau yn unol â rheoliad 28.

10.8 Mae cyfleusterau gan y cartref i ganiatáu cysylltiadau rhwng y plentyn, teulu a ffrindiau sy'n groesawus, yn breifat (fel bo'n briodol) ac yn gysurus ac yn cyfrannu tuag at agwedd bositif at gysylltiadau.

10.9 Ni ddylai plant dreulio amser i ffwrdd o'r cartref gyda ffrindiau neu deulu onid yw'r person cofrestredig wedi cael awdurdodiad blaenorol gan yr awdurdod lleoli.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 15 – cysylltiadau a'r cyfle i gyfathrebu

## SAFON 11 - ADDYSG

### Y canlyniad

**Mae plant yn elwa yn sgil y ffaith bod eu haddysg yn cael ei hybu'n bositif fel peth gwerthfawr ynnddi ei hun, ac fel rhan o'u paratodau ar gyfer byw fel oedolion.**

- 11.1 Mae yna bolisi addysg sy'n dangos sut mae'r cartref yn bwriadu hybu a chefnogi addysg y plant drwy gydol yr amser y maent yn byw yno. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth i'r plentyn drwy sicrhau ei fod yn cael ei anfon i'r ysgol yn brydlon, a chyda'r offer ysgol angenrheidiol.
- 11.2 Mae cofnodion achos pob plentyn yn cynnwys manylion ei hanes addysgol, unrhyw ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ei gynnydd a'i gyraeddiadau. Mae dogfennau perthnasol (megis Cynllun Addysg Personol y plentyn) yn cael eu cadw ar y ffeil.
- 11.3 Mae'r staff yn gyfarwydd â hanes addysgol ac anghenion addysgol y plant yn y cartref.
- 11.4 Mae pob plentyn yn cael cyfle llawn i gael cyfleusterau addysgol, ar lefel yr ysgol ac mewn addysg bellach neu uwch fel y bo'n briodol, pryd bynnag y bo'n ymarferol ac yn unol ag oedran, dawn, anghenion, diddordebau a photensial y plentyn.
- 11.5 Mae cynlluniau lleoliad yn rhoi sylw penodol i'r canlynol:
- addysg ac a gaiff anghenion y plentyn eu diwallu drwy fynychu sefydliad addysgol penodol
  - unrhyw anghenion addysgol arbennig a sut y byddant yn cael eu diwallu
  - lefel y monitro ar bresenoldeb y plentyn yn yr ysgol
  - ymglymiad y rhiant/rhieni/gweithiwr cymdeithasol yn addysg y plentyn
  - dyddiadau arholiadau cenedlaethol megis TASau, TGAU, Safon Uwch a Safon Uwch Atodol, ac unrhyw arholiadau eraill y mae'r plentyn yn bwriadu eu sefyll
  - staff gyda chyfrifoldeb dros gydgyssylltu ag ysgolion, y gwasanaethau gyrfaedd, y ganolfan gwaith, asiantaethau cyflogi a chyflogwyr lleol fel y bo'n briodol
  - trefniadau ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.
- 11.6 Mae'r plant yn cael:
- eu darparu â chyfleusterau sy'n ffafriol ar gyfer astudio a gwneud gwaith cartref; ac

- eu hannog a'u cefnogi wrth wneud hynny – gall hyn gynnwys darparu llyfrau, cyfrifiaduron, ac aelodaeth llyfrgell;
- cymorth gyda'u gwaith cartref os dymunant;
- eu darparu â chymorth darllen pan fydd angen;
- eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gyrsiol;
- eu hannog i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt yn yr ysgol yn breifat gyda'u gweithiwr allweddol.

11.7 Pan fydd rhieni'r plant yn absennol, mae staff y cartref yn mynd i gyfarfodydd rhieni a digwyddiadau eraill yn yr ysgol sydd fel arfer yn cael eu mynychu gan rieni plant eraill yr ysgol. Mae staff yn galluogi plant i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol gan gynnwys digwyddiadau ac ymweliadau.

11.8 Mae staff y cartref yn annog plant i fod yn bresennol yn yr ysgol ac yn pwysleisio manteision addysg i'r plant hynny sy'n amharod i fynd i'r ysgol ac maent yn gweithio gyda'r awdurdodau lleoli a'r awdurdodau addysg i leiafu effaith atal neu wahardd o'r ysgol.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 18 – addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden

Rheoliad 28 – cofnodion



## SAFON 12 - HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU

### Y CANLYNIAD

**Galluogir y plant i ddilyn eu diddordebau penodol a magu hyder yn eu medrau a chânt eu cefnogi a'u hannog gan y staff i ymwneud â gweithgareddau hamdden.**

- 12.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod pob cyfle gan y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol a phleserus, yn y cartref ac yn y gymuned leol.
- 12.2 Mae yna ddigon o gyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hamdden priodol, ac mae'r person cofrestredig yn dyrannu digon o adnoddau ariannol i ariannu gweithgareddau a theithiau hamdden.
- 12.3 Mae'r plant i gyd yn cael anogaeth, cymorth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau hamdden sy'n cymryd i ystyriaeth eu hil, eu diwylliant, eu hiaith, eu crefydd, eu diddordebau, eu galluoedd a'u hanableddau. Mae pen-blwyddi, dyddiau enwi a gwyliau diwylliannol a chrefyddol yn cael eu dathlu lle y bo'n briodol ac mae'r plant yn cymryd rhan gyda'r staff wrth gynllunio'r digwyddiadau hyn gyda'i gilydd.
- 12.4 Mae diddordebau hamdden a meysydd y mae gan blentyn ddoniau neu alluoedd ynddynt yn cael eu hystyried o fewn cynllun lleoliad y plentyn ac, os yw'n gymwys, mewn cyfarfodydd ac adolygiadau cynllunio gofal. Ystyrir sut y cânt eu hybu a'u cefnogi'n ariannol.
- 12.5 Mae yna gydbwysedd priodol rhwng amser rhydd ac amser o dan reolaeth yn strwythur y dydd, gan gymryd i ystyriaeth y diwrnod ysgol i'r cartrefi hynny sy'n ysgolion. Mae'r gweithgareddau'n adlewyrchu dewisiadau'r plant ac ar adegau caniateir i'r plant wneud dim byd yn benodol.
- 12.6 Mae gweithgareddau o dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth yn cymryd i ystyriaeth ddiogelwch y plant bob amser ac os oes yna beryglon mawr neu anarferol, mae asesiad o'r risg yn cael ei wneud a'i gofnodi, a chymerir y camau a nodir i leiafu risgiau diangen a chael cydsyniad gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.
- 12.7 Mae unrhyw weithgaredd â risg uchel sy'n cael ei ddarparu neu ei drefnu ar gyfer y plant yn cael ei oruchwyllo gan bersonau sy'n meddu ar y cymhwyster perthnasol i oruchwyllo'r plant wrth iddynt gymryd rhan yn y gweithgaredd o dan sylw (megis y cymhwyster ar gyfer hyfforddi neu oruchwyllo plant sy'n cael ei ddyfarnu gan y corff cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer y gweithgaredd o dan sylw).
- 12.8 Anogir y plant i gyfarfod â'r staff, yn unigol neu mewn grwpiau, i drafod sut mae'r cartref yn cael ei redeg yn gyffredinol, i gynllunio

gweithgareddau ac i fynegi eu barn. Mae sylwadau'r plant yn cael eu hystyried wrth ddewis unrhyw wyliau, teithiau neu wibdeithiau ar gyfer unigolion a grwpiau.

- 12.9 Mae'r staff yn ymwneud â'r plant drwy siarad gyda hwy a gwneud pethau gyda hwy, gan rannu eu profiadau a chymryd rhan yn briodol mewn gweithgareddau hamdden gyda'r plant.
- 12.10 Mae gan y plant gyfle i weld a dewis o blith papurau newydd, llyfrau, cylchgronau, teganau, cerddoriaeth a chwaraeon priodol. Darperir ar gyfer oedran, gender, diwylliant a diddordebau'r plant.
- 12.11 Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau unigol y plant o ran gwyllo tapiau fideo a'r teledu, ac wrth ddefnyddio gemau cyfrifiadur a chyrchu'r rhyngwrwd. Dim ond y plant sydd o fewn yr ystod oedran y bwriadwyd hwy ar eu cyfer sy'n gwyllo neu chwarae fideos, gemau consol a gemau cyfrifiadur. Mae systemau a pholisïau ar gael i ddiogelu plant wrth rwydweithio ar y cyfrifiadur neu ar y rhyngwrwd ac i atal y cartref rhag cael ei reoli gan y defnydd ar y teledu a chyfrifiaduron.
- 12.12 Mae teithiau allan i ddigwyddiadau ar gyfer difyrrwch neu ddiddordeb yn cael eu hybu a/neu eu trefnu gan y staff.
- 12.13 Mae'r plant sydd am wneud hynny yn cael cymorth i gymryd rhan yn y gweithgareddau a'r cyfleusterau addysg a hamdden sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn ardal y cartref.
- 12.14 Nid yw'r cludiant a ddefnyddir gan y cartref yn cael ei farcio mewn ffordd sy'n ei wahaniaethu oddi wrth gar neu fws cyffredin, oni chafwyd ef yn rhodd elusennol i'r cartref ac os felly gall ddwyn enw'r elusen a'i rhoddodd. Nid yw hyn yn gwahardd ysgolion sy'n gartrefi plant rhag dangos enw'r ysgol ar y car neu'r bws.
- 12.15 Mae cyfleusterau ac offer ar gael gan y cartref ar gyfer gweithgareddau addysgol a gweithgareddau hamdden sy'n annog y plant i chwilota a dysgu, drwy amryw gyfryngau sy'n briodol i'w hiaith, eu hanabledd, eu hoedran a'u deall.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 18 – addysg, cyflogaeth a gweithgareddau hamdden

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd y gofal

## ANSAWDD GOFAL A THRINIAETH

### SAFON 13 - CYMORTH I BLANT UNIGOL

#### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn cael y cymorth unigol sydd arnynt ei angen pan fydd arnynt ei angen.**

- 13.1 Mae pob plentyn yn cael cymorth unigol yn unol â'i anghenion a'i ddymuniadau, ac mae plant y gwelir bod arnynt anghenion penodol yn cael cymorth, canllawiau a chefnogaeth pan fydd eu hangen neu pan ofynnir amdanynt.
- 13.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau y darperir, i'r graddau y maent yn ymarferol, addysg bersonol, addysg iechyd, addysg gymdeithasol ac addysg rhyw unigol sy'n briodol i bob plentyn sy'n byw yno, gan gynnwys plant ag anableddau.
- 13.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn mynd ati i hybu ymglymiad pob plentyn yng ngrwp cymdeithasol y cartref, yn mynd i'r afael ag ynysu unigolion gan eraill, ac yn cynorthwyo'r plant hynny nad ydynt am unrhyw reswm yn "ffitio" i'r grwp o breswylwyr yn hwylus.
- 13.4 Rhoddir cymorth priodol i blant yn eu dewis iaith, gan gynnwys iaith arwyddion, er mwyn eu galluogi i fynegi eu hanghenion, eu dymuniadau a'u pryderon, ac i gyfathrebu â'r staff a'r plant eraill yn y cartref.
- 13.5 Mae'r gweithiwr allweddol yn darparu arweiniad a chymorth unigol i'r plentyn ac mae'n trefnu bod amser ar gael yn rheolaidd i alluogi'r plentyn i holi am arweiniad, cyngor a chymorth ar unrhyw bwnc.
- 13.6 Gall y plant gysylltu ag unrhyw aelod o'r staff ynghylch eu pryderon personol neu eu lles, ac nid eu gweithiwr allweddol yn unig.
- 13.7 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau, cyn belled â phosibl, bod gwasanaethau proffesiynol yn cael eu darparu yn ôl yr angen i helpu plant i ddatblygu hunaniaeth unigol mewn perthynas â'u gender, eu hanabledd, eu cefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol neu ieithyddol neu eu cyfeiriadedd rhywiol.
- 13.8 Mae cymorth a chyngor yn cael eu rhoi i unrhyw blentyn yn y cartref sy'n ymwneud â phuteinio neu gam-drin, naill ai fel dioddefwr camdriniaeth neu wrth gam-drin eraill, neu sydd wedi bod felly, ac mae'r plentyn yn chwarae rhan wrth gynllunio unrhyw raglen o gymorth o'r fath.

- 13.9 Mae gan bob plentyn o leiaf un person, sy'n annibynnol ar y cartref a/neu'r awdurdod sydd wedi lleoli'r plentyn yno, y gallant gysylltu â hwy yn uniongyrchol ynghylch problemau neu bryderon personol yn y cartref. Er enghraifft gall person o'r fath fod yn eiriolydd, yn swyddog hawliau plant, yn gynghorydd personol, yn gyfaill, yn ymwelydd ar ran corff sy'n rhedeg y cartref, yn ymwelydd annibynnol, yn gwnselwr neu'n fentor.
- 13.10 Mae'r plant yn cael eu cynorthwyo i gymryd risgiau o dan reolaeth sy'n gyson â'u hoedran, eu haeddfedrwydd a'u dealltwriaeth ac sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol ar gyfer negodi a deall eu lle yn y gymuned.
- 13.11 Mae'r plant y mae eu cynlluniau lleoliad yn gofyn am wasanaethau allanol arbenigol iddynt (e.e. ar gyfer hamdden, addysg neu iechyd) yn cael y gwasanaethau hynny mewn gwirionedd. Mae'r staff yn cydweithredu wrth weithredu unrhyw raglenni sy'n gysylltiedig â gwasanaethau arbenigol megis therapi iaith a lleferydd neu raglenni ffisiotherapi.
- 13.12 Pan fydd plentyn yn ymadael â'r cartref anfonir copi o'i gofnodion achos i'r awdurdod lleoli<sup>1</sup> ac, os yw'n briodol ac yn ddarostyngedig i gytundeb yr awdurdod lleoli, mae gwybodaeth bersonol, addysgol ac iechyd berthnasol sy'n ymwneud â phob plentyn yn cael ei hanfon i'r lleoliad dilynol.
- 13.12 Defnyddir unrhyw dechneg<sup>2</sup> therapiwtig benodol ar blentyn yn y cartref yn unol â'r amodau canlynol:
- Mae'r dechneg wedi cael ei phennu yng nghynllun lleoliad y plentyn ac yn cael ei chymeradwyo'n benodol gan yr awdurdod sy'n lleoli'r plentyn
  - Mae'n hysbys bod yna dystiolaeth sy'n cefnogi defnydd ddiogel ac yn effeithiol ar y dechneg
  - Mae'r dechneg yn cael ei defnyddio gan aelod o'r staff neu ymarferydd arall sy'n meddu ar gymhwyster cydnabyddedig cyfredol yn y therapi o dan sylw, neu o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth person o'r fath. Rhaid bod y person cofrestredig wedi'i fodloni fod y cymhwyster hwnnw yn ddilys, ac mae unrhyw aelod o'r staff sy'n defnyddio'r dechneg yn cael ei oruchwyllo wrth ddefnyddio'r dechneg gan berson y tu allan i'r cartref sydd wedi cymhwyso ac yn brofiadol yn y therapi o dan sylw; nid yw'r person hwn yn gyfrifol am y cartref.

---

<sup>1</sup> Rheoliad 28.

<sup>2</sup> Ystyr 'techneg therapiwtig' yw unrhyw dechneg y bwriedir iddi drin neu leddfuo problem gorfforol, cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol, seicolegol neu wybyddol sydd gan blentyn, a honno'n dechneg y mae angen medrau neu wybodaeth i'w harfer sydd y tu hwnt i'r medrau neu'r wybodaeth a ddisgwyliid fel rheol oddi wrth riant neu athro/athrawes.

13.14 Mae cymorth priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol taith pob plentyn o'i wlad wreiddiol a chynghor asiantaethau arbenigol os oes ei angen.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## STAFFIO

### SAFON 14 - Y BERTHYNAS Â'R PLANT

#### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn mwynhau perthnasoedd priodol a phositif â'r staff ar sail gonestrwydd a chyd-barch**

- 14.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod perthnasoedd rhwng y staff a'r plant wedi'u seilio ar gyd-barch a chyd-ddealltwriaeth a ffiniau proffesiynol a phersonol clir sy'n effeithiol ar gyfer yr unigolion a'r grwp.
- 14.2 Gall y staff a gyflogir yn y cartref osod ffiniau diogel, cyson a dealladwy ar gyfer y plant mewn perthynas ag ymddygiad derbyniol, a chadw at y rhain.
- 14.3 Mae'r disgwyliadau ynghylch ymddygiad y staff a'r plant wedi'u deall yn glir ac wedi'u negodi gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref, gan gynnwys arfer rheolaeth briodol dros y plant er eu lles eu hunain ac er mwyn amddiffyn eraill.
- 14.4 Mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd, mae'r staff yn amlygu cydbwysedd priodol rhwng:
- dymuniadau a dewisiadau pob plentyn
  - anghenion plant unigol
  - anghenion y grwp o blant sy'n byw yno ar y pryd, ac
  - amddiffyn eraill (gan gynnwys y cyhoedd) rhag niwed.
- 14.5 Mae'r cyfathrebu rhwng y staff a'r plant yn y cartref yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu gofal a phryder am les y plant.
- 14.6 Mae'r plant yn y cartref yn derbyn gofal, heb ffafriaeth nac anffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn neu grwp yn y cartref, ac ymdrinnir anghytundebau rhwng staff a phlant yn rhesymol.
- 14.7 Pan fydd angen gofal personol ar blant, bydd eu dewis o ba staff sy'n rhoi'r gofal yn cael ei barchu pryd bynnag y mae'n bosibl.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 15 – cysylltiadau a'r cyfle i gyfathrebu

Rheoliad 17 – rheoli ymddygiad, disgyblaeth ac atal

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant

## SAFON 15 – RHEOLI YMDDYGIAD

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn cael eu helpu i ddatblygu ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol drwy anogaeth i ymddwyn felly ac ymateb adeiladol gan y staff tuag at ymddygiad amhriodol.**

- 15.1 Mae'r staff yn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad derbyniol, ac os yw'r staff yn barnu bod ymddygiad y plant yn annerbyniol, ymatebir i hynny drwy fesurau adeiladol, derbyniol a hysbys sydd wedi'u cymeradwyo gan y person cofrestredig.
- 15.2 Mae gan y person cofrestredig bolisi, gweithdrefnau a chanllawiau ysgrifenedig clir i'r staff, wedi'u seilio ar god ymddygiad sy'n nodi'r mesurau rheoli, disgyblu ac atal a ganiateir ac sy'n pwysleisio'r angen i ganmol y plant am ymddygiad derbyniol.
- 15.3 Mae'r mesurau rheoli a'r mesurau disgyblu wedi'u seilio ar sefydlu perthynas gadarnhaol â phlant ac wedi'u llunio i helpu plant. Mae'r mesurau hynny'n cael eu defnyddio'n deg ac yn gyson. Maent hefyd yn annog gwneud iawn a gwneud iawndal ac yn lleihau'r tebygrwydd y bydd ymddygiad negyddol yn ennyn sylw ac yn tarfu wedyn ar y lleoliad.
- 15.4 Ni ellir ystyried bod unrhyw ffurf o gosb gorfforol yn dderbyniol.
- 15.5 Mae canlyniadau ymddygiad annerbyniol yn glir i'r staff a'r plant. Mae unrhyw fesurau a ddefnyddir yn berthnasol i'r digwyddiad, yn rhesymol ac yn cael eu cymryd mor agos at yr amser â phosibl.
- 15.6 Mae unrhyw fesurau a gymerir i ymateb i ymddygiad annerbyniol yn briodol ar gyfer oedran, dealltwriaeth ac anghenion unigol y plentyn. Mae'r mesurau'n cymryd i ystyriaeth y gall ymddygiad annerbyniol neu herfeiddiol ddeillio o salwch, bwlio, anabledau penodol megis awtistiaeth, neu anawsterau cyfathrebu.
- 15.7 Nid yw cosbau ac ataliadau corfforol yn ormodol nac yn afresymol
- 15.8 Dim ond i atal anaf tebygol i'r plentyn o dan sylw neu i eraill, neu ddifrod difrifol tebygol i eiddo, y defnyddir ataliadau corfforol, a hyd yn oed bryd hynny ond i'r graddau sy'n gwbl angenrheidiol i osgoi'r anaf neu'r niwed yn unol â rheoliad 17. Nid yw ataliadau'n cael eu defnyddio fel cosb, fel dull i orfodi plentyn i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, nac mewn ymateb i ymddygiad herfeiddiol nad yw'n peri disgwyliad rhesymol o niwed neu ddifrod i eiddo. O ran ysgolion sy'n gartrefi plant, nid yw hyn yn rhwystro defnyddio ataliadau mewn amgylchiadau a ganiateir gan adran 550A o Ddeddf Addysg 1996.

- 15.9 Mae polisi'r person cofrestredig ar ddefnyddio ataliadau corfforol a'r technegau perthnasol ac ar ddefnyddio mathau eraill o ymyriadau corfforol a'u technegau perthnasol, ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu defnyddio, yn gyson ag unrhyw ganllawiau perthnasol gan y Cynulliad ar ddulliau atal ac ymyriadau corfforol a gymeradwywyd. Mae holl staff y cartref yn ymwybodol o bolisi'r person cofrestredig, ac wedi'u hyfforddi yn ei gylch ac yn ei ddilyn yn ymarferol. Mae'r holl staff wedi llofnodi i gydnabod eu bod wedi darllen y polisi a bod y polisi ar gael iddynt yn barhaus ac mae tystiolaeth o hynny yn cael ei chadw ar eu ffeiliau personél.
- 15.10 Rhaid i gofnodion ynghylch defnyddio rheoli, atal neu ddisgyblu (gan gynnwys gosod sancsiynau) ar blentyn gan oedolyn gael ei gadw mewn llyfrau neilltuedig ar wahân, wedi'u rhwymo a'u rhifo a byddant yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn y rheoliadau.
- 15.11 Rhaid i bob digwyddiad o reoli, atal neu ddisgyblu (gan gynnwys gosod sancsiynau) gael ei gofnodi mewn adroddiad llawn sy'n cael ei gadw yn ffeil achos y plentyn ac yn croes-gyfeirio at y llyfr neilltuedig perthnasol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys y materion sy'n ofynnol o dan reoliad 17.
- 15.12 Caiff cofnodion y cartref ar ddefnyddio rheoli, atal neu ddisgyblu eu monitro'n rheolaidd gan y person cofrestredig i fonitro eu bod yn cydymffurfio â pholisi, gweithdrefnau a chanllawiau'r cartref ac i ddod o hyd i unrhyw batrymau mewn digwyddiadau sy'n arwain at yr angen am gamau disgyblu neu atal. Wrth fonitro edrychir hefyd ar y goblygiadau ar gyfer gofalu am blant unigol a'r arferion gofal presennol. Mae'r person cofrestredig yn gwahodd ac yn cofnodi unrhyw sylwadau a wneir ar briodoldeb enghreifftiau unigol o ddefnyddio rheoli, atal neu ddisgyblu gan unrhyw un sy'n ymwneud â defnydd o'r fath, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd wedyn ac mae'n llofnodi yn erbyn pob cofnod a wneir o dan safon 15.11 i gadarnhau bod y monitro wedi digwydd.
- 15.13 Mae'r mesurau rheoli, disgyblu ac atal a ddefnyddir gan y cartref yn cael eu gwneud yn eglur i'r awdurdod sy'n lleoli'r plentyn, y plentyn, y rhiant/rhieni neu'r gofalmwr cyn yr adeg y mae'r plentyn i symud i'r cartre neu, mewn lleoliad argyfwng, ar yr adeg hynny.
- 15.14 Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth briodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff a'r plant fel ei gilydd yn glir fod gan bob unigolyn hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhai sy'n byw yn y cartref, y rhai sy'n gweithio yno a phobl yn y gymuned.
- 15.15 Mae pob plentyn yn cael cyfle i drafod digwyddiadau a mynegi eu barn naill ai yn unigol neu mewn fforwm neu gyfarfod ty rheolaidd lle gall y plant a'r oedolion drafod ymddygiad anniogel. Pan fydd mesurau disgyblu neu ataliadau yn cael eu defnyddio, mae'r plant yn cael eu hannog i ysgrifennu neu sicrhau bod eu sylwadau yn cael eu cofnodi



ac i lofnodi eu henwau gyferbyn â hwy, os yw'n bosibl, yn y cofnodion sy'n cael eu cadw yn y cartref.

15.16 Oni bai fod y person cofrestredig yn gallu dangos nad yw hynny'n briodol, mae gan y cartref weithdrefnau a chanllawiau ar ymwneud yr heddlu yn y cartref, y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu lleol, ac mae'r staff yn wybodus ac yn glir yn eu cylch.

15.17 Mae cyfarfodydd staff yn rhoi sylw i faterion rheoli ac yn cytuno ar ddulliau ymarferol a derbyniol o ymateb i broblemau ymddygiad a rheoli y grwp presennol o blant a phlant unigol yng ngoleuni eu hanesion, unrhyw broblemau cyfredol a chynlluniau lleoliad.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 17 – rheoli ymddygiad, disgyblu ac atal

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant

Rheoliad 27 – cyflogi staff

Rheoliad 28 – cofnodion

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## SAFON 16 - DARPARU A PHARATOI PRYDAU

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn mwynhau prydau iach a maethlon sy'n diwallu eu hanghenion deietegol. Mae ganddynt gyfleoedd i gynllunio ar gyfer prydau, siopa ar eu cyfer a'u paratoi.**

- 16.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod plant yn cael digon o fwyd a diod sydd wedi'u paratoi'n addas, gan gymryd i ystyriaeth eu hanghenion a'u dymuniadau, ac yn cael cyfle i siopa ar gyfer eu prydau eu hunain a'u paratoi. Caiff anghenion deietegol oherwydd iechyd, cred grefyddol, cefndir hiliol neu ddiwylliannol eu diwallu.
- 16.2 Mae prydau yn achlysuron cymdeithasol trefnus sy'n cael eu rheoli'n dda.
- 16.3 Mae'r plant yn cael digon o fwyd, wedi'i baratoi'n iawn, a hwnnw'n iach ac yn faethlon ac yn cymryd i ystyriaeth eu cefndir diwylliannol, ethnig a chrefyddol a'u hanghenion a'u dewisiadau o ran deiet.
- 16.4 Mae'r cofnod o'r bwydlenni (fel y cawsant eu gweini) yn dangos bod deiet addas ac amrywiol yn cael ei ddarparu.
- 16.5 Gofynnir am gyngor meddygol os bydd plant yn gyson yn gwrthod bwyta neu os bydd pryderon arwyddocaol ynglyn â'u patrwm bwyta neu ddeiet.
- 16.6 Nid yw'r plant yn cael eu gwahardd o brydau'r gymuned fel rhan o'r drefn.
- 16.7 Mae'r ystafelloedd bwyta a'r dodrefn ynddynt yn addas ar gyfer niferoedd ac anghenion y plant a'r staff sy'n bwyta yno.
- 16.8 Gall y plant baratoi byrbrydau a diodydd iddynt eu hunain, gyda chymorth os oes angen, ar adegau rhesymol a dylent allu cael dwr ffres bob adeg.
- 16.9 Mae'r staff a'r plant sy'n ymwneud â pharatoi bwyd i eraill wedi cael cyfarwyddyd priodol mewn dulliau diogel o drafod bwyd a hylendid ac/neu yn cael eu goruchwyllo'n briodol.

16.10 Mae prydau (gyda diodydd) yn cael eu darparu ar adegau penodedig rhesymol, ac mae bwyd naill ai'n cael ei ddarparu neu mae ar gael yn hwylus i'r plant pan fyddant yn colli pryd penodedig.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 13 – y bwyd a ddarperir ar gyfer plant

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd

## SAFON 17 - IECHYD DA A LLES

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd iach ac mae iechyd da'r plant yn cael ei hybu.**

- 17.1 Mae'r person cofrestredig yn hybu gofal iechyd pob plentyn ac yn galluogi'r plentyn i ddysgu am fyw'n iach.
- 17.2 Mae anghenion corfforol ac emosiynol ac anghenion iechyd pob plentyn yn cael eu nodi a chymau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau'r gwasanaethau meddygol, y gwasanaethau deintyddol a'r gwasanaethau iechyd eraill y mae eu hangen i'w diwallu. Mae canllawiau, cyngor a chymorth yn cael eu rhoi i'r plant ar faterion iechyd a gofal personol sy'n briodol i oedran, anghenion a dymuniadau pob plentyn.
- 17.3 Mae gan bob plentyn gynllun iechyd ysgrifenedig clir (o fewn eu cynllun lleoliad) yn ymdrin â'r canlynol:
- hanes meddygol
  - unrhyw ymyriadau meddygol neu iechyd penodol y gall bod gofyn amdanynt
  - unrhyw fesurau ataliol angenrheidiol
  - alergeddau neu adweithiau croes hysbys i feddyginiaeth
  - iechyd deintyddol
  - clyw
  - golwg
  - cofnodion gwiriadau datblygiadol
  - therapïau triniaeth penodol neu raglenni adferol y mae eu hangen mewn perthynas ag iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol
  - monitro iechyd y mae angen i'r staff ei wneud
  - ymglymiad rhieni'r plentyn neu bobl eraill arwyddocaol mewn materion iechyd.
- 17.4 Mae cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw, yn unol â rheoliad 28, o bob salwch neu ddamwain arwyddocaol sy'n digwydd i blant yn ystod eu lleoliad yn y cartref.
- 17.5 Mae pob plentyn yn cael canllawiau, cyngor a chymorth, sy'n briodol i oedran, anghenion, diwylliant a dymuniadau'r plentyn, mewn perthynas â'r canlynol:
- materion iechyd a materion cymdeithasol (gan gynnwys cam-drin cyffuriau, alcohol a sylweddau)

- ysmegu
  - addysg rhyw
  - heintiad HIV, hepatitis a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol, a
  - diogelu'ch hun rhag rhagfarn, bwlio a chamdriniaeth, a hynny o fewn y cartref a'r tu allan iddo.
- 17.6 Mae yna bolisi a chanllawiau ysgrifenedig, sy'n cael eu rhoi ar waith, ar hybu iechyd plant yn y cartref gan gynnwys:
- imiwneiddio a sgrinio,
  - maethiad a deiet,
  - ymarfer corff a gorffwys,
  - hylendid personol
  - iechyd rhywiol
  - effeithiau camddefnyddio alcohol, ysmegu a chamddefnyddio sylweddau
  - HIV ac AIDS a chlefydau eraill sy'n cael eu cario yn y gwaed.
- 17.7 Eir ati i annog y plant i beidio ag ysmegu na chamddefnyddio alcohol a sylweddau.
- 17.8 Rhoddir cyfleoedd i'r plant i drafod y pynciau hyn yn agored ac yn onest gyda'r staff a chyda'u cymheiriaid.
- 17.9 Lle bynnag y bo'n ymarferol, cofrestrir pob plentyn gydag ymarferydd cyffredinol a deintydd yn ardal y cartref.
- 17.10 Galluogir y plant sy'n abl i wneud hynny i wneud dewisiadau ynghylch eu hanghenion nyrsio, eu hanghenion meddygol a deintyddol a'u hanghenion iechyd eraill.
- 17.11 Mae'r plant, yn amodol ar eu hoedran a'u deall, yn gallu dewis a oes aelod o'r staff yn mynd gyda hwy neu beidio wrth fynd i weld meddyg, nyrs neu ddeintydd, ac, i'r graddau y mae'n ymarferol, eu bod yn cael gweld doctor o'r naill gender neu'r llall os dymunant.
- 17.12 Mae plant sydd â phroblemau iechyd penodol neu anabledd, gan gynnwys nam corfforol neu nam ar y synhwyrâu neu anableddau dysgu, yn cael cymorth a help priodol. Mae'r person cofrestredig yn pwysleisio wrth ei staff yr angen i amddiffyn urddas y plant bob adeg.
- 17.13 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod unrhyw driniaeth a ragnodir neu a gynhwysir yng nghynllun lleoliad y plentyn neu yn ei gynllun gofal (lle bo hynny'n berthnasol) yn cael ei roi (o fewn galluoedd y staff) gan gymryd dymuniadau'r plentyn i ystyriaeth.
- 17.14 Ymdrinnir â materion hylendid personol yn sensitif.

17.15 Mae'r staff yn deall anghenion plant o grwpiau ethnig a diwylliannol lleiafrifol a gofynnir am gyngor arbenigol yn ôl yr angen.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

## SAFON 18 - TRINIAETH A RHOI MEDDYGINIAETHAU O FEWN Y CARTREF

### Y CANLYNIAD

**Mae anghenion iechyd y plant yn cael eu bodloni a'u lles yn cael ei ddiogelu drwy bolisiâu a gweithdrefnau'r cartref ar gyfer rhoi meddyginiaethau a darparu triniaeth.**

- 18.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau mai (heblaw nyrsys, meddygon a deintyddion cofrestredig) dim ond aelod staff cymwys dynodedig, neu nyrs y cartref, os oes un, sy'n rhoi cymorth cyntaf, triniaeth ar gyfer mân salwch a meddyginiaethau yn y cartref.
- 18.2 Mae polisi a chanllawiau ysgrifenedig, a weithredir yn ymarferol, ar gyfer cofnodi cael, storio, trafod, rhoi a gwaredu meddyginiaeth.
- 18.3 Mae cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw gan y cartref o'r holl feddyginiaeth, triniaethau a chymorth cyntaf a roddir i'r plant, gan roi'r enwau, y dyddiad, y feddyginiaeth neu'r driniaeth (gan gynnwys y dognau) a'r rheswm dros eu rhoi (os nad ydynt wedi'u rhoi ar bresgripsiwn). Llofnodir y cofnod gan yr aelod staff sy'n gyfrifol am ryddhau meddyginiaethau o'r storfa yn achos defnyddio meddyginiaeth, a chan y person sy'n rhoi'r feddyginiaeth neu'r driniaeth ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan uwch-aelod dynodedig priodol o'r staff.
- 18.4 Pan fydd staff yn cyflawni tasgau iechyd hyfedr gyda phlant (ee gofal catheter, rhoi ocsigen, rhoi diazepam rhefrol, cynorthwyo rhaglenni ffysiotherapi, rheoli prosthesis), cyflawnir hwy ar awdurdod ysgrifenedig y meddyg sy'n eu rhagnodi neu'r nyrs sy'n gyfrifol am y tasgau o dan sylw yn unig. Cedwir cofnodion ar bob tasg o'r fath a gyflawnir.
- 18.5 Mae'r person cofrestredig wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros bob plentyn i roi cymorth cyntaf a meddyginiaeth briodol heb bresgripsiwn, ac mae'n cadw'r caniatâd hwnnw ar ffeil.
- 18.6 Mae'r staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio cymorth cyntaf a darperir blychau cymorth cyntaf yn y cartref.
- 18.7 Os yw'r person yn cael ei gyflogi fel nyrs yn y cartref, dylai'r person hwnnw fod yn nyrs gofrestrdedig a chanddi gyfle i fynd at feddyg sydd wedi'i enwi i gael canllawiau proffesiynol ac i ymgynghori â hwy. Pryd bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r nyrs fod yn Nyrs Plant (RSCN neu Nyrs Gangen Prosiect 2000).

- 18.8 Mae'r plant yn cael meddyginiaethau yn unol â'r presgripsiwn ar eu cyfer, ac mae unrhyw wrthodiad i gymryd meddyginiaeth yn cael ei gofnodi yn eu cofnod achos ac yn cael ei adrodd i'r ymarferydd sydd wedi rhoi'r presgripsiwn.
- 18.9 Dim ond i'r plentyn y cafodd ei rhagnodi ar ei gyfer y mae meddyginiaeth presgripsiwn yn cael ei rhoi, a hynny yn unol â chyfarwyddiadau'r person sy'n ei ragnodi neu'r cyfarwyddiadau a roddir gyda'r feddyginiaeth. Rhaid peidio â'i chadw i gael ei defnyddio'n gyffredinol i bobl eraill (plant na staff) na'i hychwanegu at "stoc" i gael ei defnyddio felly.
- 18.10 Mae plant sy'n cadw ac yn rhoi eu meddyginiaeth i'w hunain yn cael eu hasesu gan y staff fel rhai sy'n ddigon cyfrifol i wneud hynny, a gallant storio'u meddyginiaeth rywle nad yw ar gael yn hwylus i blant eraill.
- 18.11 Mae meddyginiaeth bresgripsiwn a meddyginiaeth "gartref", heblaw'r feddyginiaeth a gedwir gan blant unigol sy'n cadw eu meddyginiaeth eu hunain, yn cael ei chadw yn ddiogel (e.e. mewn cabinet o dan glo nad yw'r allwedd ar ei gyfer mewn man y gall y plant cael gafael arni).
- 18.10 Mae'r person cofrestredig wedi sicrhau cyngor meddyg neu nyrs gymwysedig mewn protocol ysgrifenedig ar ddarparu meddyginiaethau "cartref" nad ydynt yn feddyginiaethau presgripsiwn ar gyfer y plant, ac yn dilyn y cyngor hwn.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

Rheoliad 21 – meddyginiaethau



## SAFON 19 - FETIO STAFF AC YMWELWYR

### Y CANLYNIAD

**Diogelir plant rhag cael eu cam-drin drwy'r gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer dethol a fetio'r holl staff a'r gwirfoddolwyr a monitro ymwelwyr.**

- 19.1 Mae'r person cofrestredig yn gweithredu proses dethol a fetio effeithiol ar yr holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn y cartref, ac mae hyn yn cynnwys monitro'r holl ymwelwyr.
- 19.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y cartref (gan gynnwys staff cynorthwyol a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ar sail contractiol/sesiynol, gwirfoddolwyr a myfyrwyr) wedi cael y gwiriadau sy'n ofynnol ar eu cyfer o dan reoliad 26 (ond gweler 19.4 isod). Os yw'r swydd yn golygu gofalu, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yr unig un â gofal dros bersonau o dan 18 oed yn rheolaidd, bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod tystysgrif cofnod troseddol gyfredol fanwl wedi'i dyroddi o dan Adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997 ar gael. Mewn achosion eraill, os yw person yn dod o fewn rheoliad 26(1), mae'n ofynnol cael tystysgrif cofnod troseddol gyfredol wedi'i dyroddi o dan Adran 113 o'r Ddeddf honno. Yn y naill achos a'r llall, rhaid rhoi nodyn ar y ffeil eu gadarnhau hynny.
- 19.3 Mae gan y person cofrestredig system effeithiol i benderfynu ar benodi, neu wrthod penodi, staff neu eraill sy'n debyg o gael cysylltiad rheolaidd â phlant yn y cartref, yng ngoleuni unrhyw gollfarnau troseddol neu bryderon eraill am eu haddasrwydd a gaiff eu datgan neu eu darganfod drwy'r broses recriwtio.
- 19.4 Yn unol â rheoliad 26(5) gall y person cofrestredig ganiatáu i aelod o'r staff ddechrau tra disgwylir canlyniad rhai o'r gwiriadau. Os digwydd hynny, rhaid i'r person cofrestredig ddangos:
- bod unrhyw dystysgrif cofnod troseddol y mae'n ofynnol ei bod ar gael wedi'i gwneud ar gael yn unol â rheoliad 26;
  - bod yr unigolyn o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ar bob adeg ar lefel sy'n eu hatal rhag dod i gysylltiad heb oruchwyliaeth â phlant yn y cartref;
  - bod yr amgylchiadau yn rhai eithriadol;
  - bod y person cofrestredig wedi cymryd pob cam rhesymol i gwblhau'r broses recriwtio ac i fynd ar drywydd gwybodaeth sydd heb ddod i law; a
  - bod y person cofrestredig wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi'r amgylchiadau hynny.

Mae cyflogaeth barhaus, o dan amgylchiadau o'r fath, yn ddarostyngedig i wiriadau boddhaol.

- 19.5 Mae'r person cofrestredig yn rhoi gwybodaeth am ddiben y cartref, sy'n gyson â'i ddatganiad o ddiben, i bob ceisydd am bob swydd yn y cartref.
- 19.6 Lle bynnag y bo'n ymarferol, gwahoddir y ceiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer penodiad i unrhyw swydd yn y cartref i ymweld â'r cartref (yn ddarostyngedig i ymgynghoriad â'r plant) cyn i'r penderfyniad ar y penodiad gael ei wneud. Gofynnir am sylwadau'r staff a'r plant, a chymerir hwy i ystyriaeth yn y penderfyniad ar y penodiad. Yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'r ymgeiswyr yn cael mynediad heb ei oruchwylio at y plant.
- 19.7 Mae unrhyw dystlythyrau cyflogaeth a ddarperir gan y person cofrestredig ar unrhyw aelod presennol o'r staff neu aelod a fu ar y staff yn y gorffennol ar gyfer gwaith gyda phlant yn datgan yn glir a oes yna unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd y person i weithio gyda phlant.
- 19.8 Ni chaniateir i unrhyw staff nac ymwelwyr nad ydynt yn dod o fewn cwmpas gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol gael mynd i'r cartref heb oruchwyliaeth. Mae yna bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer monitro pobl o'r fath, mae'r gweithdrefnau hynny yn cael eu gweithredu ac mae pob ymweliad â'r cartref yn cael ei gofnodi.
- 19.9 Mae'r staff yn cymryd y cyfrifoldeb dros fonitro a rheoli ymwelwyr mewn ymgynghoriad â'r plant, a hynny er lles a diogelwch yr holl blant sy'n preswyllo yno.
- 19.10 Mae'r plant yn cael canllawiau clir ysgrifenedig ac ar lafar ar y trefniadau ar gyfer derbyn eu hymwelwyr eu hunain yn y cartref. Nid yw rhieni a pherthnasau ar ymweliad yn cael cyfle i weld plant eraill yn y cartref heb oruchwyliaeth.
- 19.11 Mae'r person cofrestredig wedi cymryd camau rhesymol ymarferol i sicrhau, pan fydd plant yn cael eu gyrru mewn tacsis wedi'u trefnu gan y cartref, fod staff yn mynd gyda hwy neu fod trefniadau eraill wedi'u gwneud i sicrhau bod gan y person cofrestredig hyder fod eu lles yn cael ei ddiogelu ar y daith.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

- Rheoliad 15 – cysylltiadau a'r cyfle i gyfathrebu  
Rheoliad 16 – trefniadau ar gyfer amddiffyn plant  
Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant  
Rheoliad 26 – ffitrwydd y gweithwyr  
Rheoliad 28 – cofnodion

## SAFON 20 – PROFIAD A CHYMHWYSTER STAFF

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn derbyn y gofal a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen gan staff cymwys.**

- 20.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod profiad a chymwysterau'r staff yn diwallu anghenion y plant.
- 20.2 Mae cymhwysedd cyffredinol y staff, fel grwp o staff ac ar shifftiau unigol, yn foddhaol mewn perthynas â'r canlynol:
  - cyflawni datganiad y cartref o'i ddiben
  - y cynlluniau gofal, cynlluniau lleoli ac anghenion y plant unigol yn y cartref
  - nifer a chymysgedd y plant yn y cartref, ac
  - unrhyw anawsterau penodol y mae'r cartref yn eu hwynebu.
- 20.3 Mae yna drefniadau clir ar gyfer staff sydd i ddirprwyo yn absenoldeb y rheolwr. Mae gan staff sy'n dirprwyo o leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn gofal plant preswyl ac, erbyn Ebrill 2004, NVQ lefel 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc.
- 20.4 Mae gan staff sy'n arweinwyr shifftiau staff o leiaf un flwyddyn o brofiad mewn gofal plant preswyl ac, erbyn Ebrill 2004, NVQ lefel 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc.
- 20.5 Erbyn 2004, bydd y staff gofal yn 18 oed o leiaf, ac mae'r staff y mae'r cyfrifoldeb cyfan dros blant neu rôl reoli yn cael ei rhoi iddynt yn 21 mlwydd oed o leiaf, ond ni ddylai person weithio ar unrhyw adeg mewn cartref plant onid yw o leiaf bedair blynedd yn hyn na'r plentyn hynaf sy'n cael ei letya yno.
- 20.6 Erbyn 2005, bydd o leiaf 80% o'r staff gofal wedi cwblhau eu Lefel 3 yn yr NVQ ar gyfer Gofalu am Blant a Phobl Ifanc neu mewn cymhwyster cyffelyb sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru, neu gymhwyster uwch.
- 20.7 Bydd angen i staff newydd a gymerir ymlaen o fis Ionawr 2005 ddal cymhwyster o'r fath neu ennill y cymhwyster o fewn dwy flynedd ar ôl iddynt ddechrau ar eu gwaith mewn cartref plant.
- 20.8 Mae pob staff yn cael eu goruchwyllo, ac maent yn glir ynghylch eu hatebolrwydd a'u llinellau adrodd yn ôl, ac ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant a hysbysu digwyddiadau.

20.9 Mae'r person cofrestredig wedi sefydlu gweithdrefn disgyblu staff sy'n datgan yn glir y gall aelod o'r staff gael ei atal o'i swydd (neu gael ei drosglwyddo i ddyletswyddau eraill) fel gweithred niwtral, hyd nes bod unrhyw amheuaeth neu honiad o gam-drin neu bryder difrifol ynghylch diogelwch a lles plant yn cael ei ystyried neu hyd nes cwblheir ymchwiliad i hynny, pan fydd hynny'n briodol er budd diogelwch neu les plant sy'n cael eu lletya yn y cartref. Mae'r weithdrefn yn gwahanu prosesau disgyblu staff yn glir oddi wrth ymchwiliadau amddiffyn plant ac achosion troseddol, ac mae'n hysbys i'r staff.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant  
Rheoliad 26 – ffitrwydd y gweithwyr  
Rheoliad 27 – cyflogi staff

## SAFON 21 - CYMORTH I'R STAFF

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sydd eu hunain yn cael eu cynorthwyo a'u harwain wrth ddiogelu a hybu lles y plant.**

- 21.1 Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff domestig a rheolwr cofrestredig y cartref, yn cael eu rheoli a'u cynorthwyo'n iawn ac yn deall i bwy y maent yn atebol.
- 21.2 Mae'r holl staff gofal a phawb arall sy'n gweithio yn y cartref (gan gynnwys staff dros dro a staff atodol) yn cael eu goruchwyllo un-i-un gan uwchreolwr unwaith y mis ac unwaith y pythefnos yn achos staff gofal newydd. Mae cofnodion yn cael eu cadw o'r camau y cytunir arnynt ar ôl y cyfarfodydd goruchwyllo.
- 21.3 Cedwir cofnod ysgrifenedig yn y cartref sy'n rhoi manylion amser a dyddiad a hyd pob goruchwyliaeth sy'n cael ei gynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnwys rheolwr cofrestredig. Llofnodir y cofnod gan y goruchwylwr a'r sawl a oruchwylir ar ddiwedd yr oruchwyliaeth.
- 21.4 Mae goruchwyllo'r staff sy'n gweithio gyda'r plant yn rhoi sylw i'r materion canlynol:
- ymatebion i blant a dulliau gweithio gyda hwy;
  - gwaith gydag unrhyw blentyn y mae'r aelod staff yn weithiwr allweddol iddo;
  - swyddogaeth yr aelod staff, gan gynnwys eu hatebolrwydd, wrth gyflawni datganiad y cartref o'i ddiben;
  - gwaith yr aelod staff wrth gyflawni cynllun lleoliad plant unigol;
  - y mesur o ymglymiad, teimladau, pryderon a straen personol;
  - datblygu a hyfforddi'r staff;
  - gosod a chynnal safonau;
  - adborth ar berfformiad;
  - canllawiau ar y tasgau cyfredol a thasgau newydd, gan gynnwys gosod safonau a chadw atynt;
  - materion personol a all amharu ar allu aelod o'r staff i gyflawni ei ddyletswydd yn effeithiol.
- 21.5 Mae trefniadau addas yn bodoli ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol dros reolwr cofrestredig y cartref.
- 21.6 Mae'r holl staff, gan gynnwys y rheolwr cofrestredig, wedi cael disgrifiadau swydd a manylebau person ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â datganiad cyfredol y cartref o'i ddiben a'r rheiny'n datgan yn glir eu cyfrifoldebau, y dyletswyddau a ddisgwylir oddi wrthynt ar hyn o bryd

a'u llinell atebolrwydd. Mae disgrifiadau swyddi yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Gweler hefyd safonau 29 a 34 sy'n cyfeirio at gymwyseddau.

- 21.7 Mae perfformiad yr holl staff yn cael ei werthuso'n unigol ac yn ffurfiol o leiaf unwaith bob blwyddyn gan eu rheolwr llinell (i athrawon bydd hyn, fel arfer, yn rhan o Reolaeth Perfformiad ac nid oes angen dyblygu). Mae ffeil bersonol y gweithiwr cyflogedig yn cynnwys cofnod o'r gwerthusiad gan ddangos y lefel perfformiad a gyrhaeddwyd, y targedau am y flwyddyn nesaf, a'r anghenion hyfforddi a'r cymwysterau y cytunwyd arnynt ac sydd i'w bodloni o fewn y flwyddyn ganlynol fel rhan o Gynllun Datblygu Personol yr unigolyn.
- 21.8 Mae'r staff yn cael canllawiau ysgrifenedig ar weithdrefnau ac arferion, sef canllawiau a gedwir yn gyfoes, sy'n hygyrch, ac sydd ar gael, lle bo'n gymwys, ar y meysydd polisi y manylir arnynt yn Atodiad 1. Mae'r staff yn cael eu hysbysu ynghylch gweithdrefn gwynion y cartref.
- 21.9 Mae gan y staff gyfle i ddefnyddio ffynonellau cyngor a chwmsela.
- 21.10 Mae cyfarfodydd y staff yn digwydd o leiaf unwaith bob mis ac mae cyfle i'r holl staff fynd iddynt.
- 21.11 Mae cyfarfodydd y staff yn cynnwys trafodaeth ynglyn â gwaith y cartref wrth ofalu am blant unigol a rheolaeth y grwp presennol o blant, ynghyd ag adolygiad o arferion y cartref. Mae yna agenda a chofnodion ar gyfer y cyfarfodydd.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 9 – y person cofrestredig – gofynion cyffredinol  
Rheoliad 27 – cyflogi staff

## SAFON 22 – HYFFORDDI A DATBLYGU

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gymwys i ddiwallu eu hanghenion.**

- 22.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n rhoi iddynt y medrau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plant ac i fodloni diben y cartref.
- 22.2 Mae gan y person cofrestredig raglen o hyfforddiant ymsefydlu i'r holl staff gofal a'r holl staff atodol sydd newydd eu penodi (gan gynnwys unrhyw staff asiantaeth, staff dros dro, staff gwirfoddol a staff sy'n fyfyrwyr), sy'n cynnwys canllawiau ar amddiffyn plant. Mae'r rhaglen yn cymryd i ystyriaeth y cyfryw ganllawiau ar ymsefydlu a all gael eu cyhoeddi gan Gyngor Gofal Cymru. Mae staff newydd yn glir ynghylch atebolrwydd a llinellau adrodd, a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn perthynas ag argyfyngau, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant a hysbysu digwyddiadau.
- 22.3 Darperir cyflwyniad i weithdrefnau amddiffyn plant, hyfforddiant tân, gweithdrefnau meddygol a chofnodi i'r holl staff gofal cyn iddynt ddechrau ar eu gwaith yn y cartref.
- 22.4 Mae'r holl staff gofal yn cychwyn eu rhaglen ymsefydlu ar ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth a chânt eu hasesu erbyn diwedd eu deuddegfed wythnos o gyflogaeth. Wedi iddynt gwblhau eu rhaglen ymsefydlu yn llwyddiannus, mae'r staff sydd heb y cymhwyster priodol y cyfeirir ato yn safon 20 yn dechrau gweithio i gael y cymhwyster.
- 22.5 Mae gan yr holl staff gofal plant gynllun datblygu personol, ac maent yn cael dyddiau o hyfforddiant gyda thâl sy'n sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau a nodir yn y ddogfen hon a'u bod yn gallu cyflawni datganiad y cartref o'i ddiben. Os yw'n briodol, mae gan y staff gyfle i gael hyfforddiant parhaus a hyfforddiant ôl-gymhwysio mewn gofal plant.
- 22.6 Cedwir cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant i'r staff yn y cartref yn unol â rheoliad 28(4).
- 22.7 Os nad yw'r medrau angenrheidiol eisoes gan aelodau o'r staff, maent wedi cael cyfle i fynd ar raglenni hyfforddi sydd ar gael ac sy'n mynd i'r afael â'r materion y manylir arnynt yn Atodiad 2.
- 22.8 Mewn cartrefi sy'n lletya plant anabl y mae angen eu codi neu eu trafod, caiff staff eu hyfforddi mewn technegau symud a thrafod.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant  
Rheoliad 27 – cyflogi staff  
Rheoliad 28 – cofnodion



## SAFON 23 – DIGONOLRWYDD Y STAFFIO

### Y CANLYNIAD

**Diwellir anghenion y plant drwy ddarpariaeth staff sy'n ddigonol o ran niferoedd.**

- 23.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y cartref yn cael ei staffio bob adeg yn unol â'r lefel ofynnol a bennir yn natganiad y cartref o'i ddiben.
- 23.2 Mae'r cofnodion yn dangos bod y lefel staffio briodol wedi'i chyrraedd.
- 23.3 Mae polisi staffio'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staffio yn ddigonol i fodloni datganiad y cartref o'i ddiben ac mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth anghenion y plant a'r cynlluniau lleoliad sy'n berthnasol i'r anghenion hynny.
- 23.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff y mae'n ofynnol iddynt weithio yn y cartref wedi'u neilltuo'n benodol i'r cartref hwnnw, a bod unrhyw newidiadau yng nghyfansoddiad tîm y staff yn cymryd buddiannau'r plant a gofynion rheoliadol i ystyriaeth.
- 23.5 Mae'r polisi staffio yn datgan:
- nifer y staff gofal y mae angen iddynt fod ar ddyletswydd yn y dydd (a all gynnwys niferoedd angenrheidiol gwahanol o dan wahanol amgylchiadau)
  - nifer y staff gofal y mae angen iddynt fod ar ddyletswydd yn ystod y nos, ac a oes angen iddynt fod ar ddihun neu'n cysgu i mewn
  - nifer y staff atodol y mae angen iddynt fod ar ddyletswydd yn ychwanegol at y staff gofal ar adegau diffiniedig o'r dydd neu'r nos
  - yr amserau y cytunwyd arnynt i'r staff nos ddechrau a gorffen
  - y trefniadau ar gyfer rheoli'r staff sydd ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos
  - y trefniadau ar gyfer y staff i fod yn bresennol neu ar gael yn yr adeilad yn ystod y dydd
  - y trefniadau ar gyfer galw am gymorth y staff uwch os oes ei angen.

- 23.6 Mae amser wedi'i amserlennu ar y rotas staff i sicrhau bod sesiynau pontio, treulio amser gyda phlant unigol, cwblhau cofnodion, cynllunio a chyflawni rhaglenni gofal yn digwydd heb gyfaddawdu'r gofal cyffredinol i'r plant.
- 23.7 Ym mhob achos lle mae plant o dan 15 oed yn cael eu lletya, rhaid bod isafswm o ddau aelod o'r staff ar ddyletswydd neu ar gael rhwng 7.00a.m. ac 11.00 p.m. bob dydd. Mewn cartrefi sy'n lletya plant 15 neu drosodd, bydd yn ofynnol bod isafswm o ddau aelod o'r staff ar ddyletswydd neu ar gael rhwng 7.00a.m. ac 11.00 p.m. oni chytunir yn benodol â'r awdurdod lleoli, y plentyn neu'r plant o dan sylw a phan fo hynny'n briodol eu rhieni neu eu gofalwyr. Yn ddarostyngedig i'r frawddeg flaenorol yn y paragraff hwn, byddid yn disgwyl isafswm cymhareb o un aelod o'r staff ar gyfer pob pum plentyn. Er hynny, gall fod angen cymhareb staffio uwch i ddiwallu anghenion y plant sy'n cael eu lletya yn y cartref.
- 23.8 Mae'r person cofrestredig yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod dilyniant y staff yn ddigonol ac i sicrhau bod mwyafrif y staff yn y cartref yn barhaol (nid yn staff dros dro neu'n staff asiantaeth) fel nad oes gormod o darfu ar ymlyniadau'r plant.
- 23.9 Mae'r person cofrestredig yn cynyddu nifer y staff sy'n gofalu am blant uwchlaw'r isafswm sy'n angenrheidiol yn ôl y datganiad o ddiben os yw anghenion y plant, y nifer o blant neu amgylchiadau eraill yn gofyn am hynny er mwyn diogelu a hybu lles pob plentyn unigol.
- 23.10 Os oes un aelod o'r staff yn unig ar ddyletswydd ar unrhyw bryd, mae asesiad risg wedi'i gynnal ac wedi'i gofnodi'n ysgrifenedig, i nodi unrhyw risgiau tebygol i'r plant, i'r staff ac i aelodau o'r cyhoedd, ac mae'r asesiad wedi dangos nad oes yna lefel annerbyniol o risg yn sgil trefniant o'r fath.
- 23.11 Dylai fod gan blant, ar bob adeg, aelod o'r staff sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r plant yn gwybod pwy ydyw a sut i gysylltu ag ef.
- 23.12 Mae yna un aelod staff o leiaf â gofal pob grwp adnabyddadwy o blant sy'n cael eu lletya, boed yn y cartref neu'r tu allan iddo, gyda'r modd i alw am gymorth ar unwaith gan o leiaf un aelod arall o'r staff os bydd ei angen.
- 23.13 Nid yw plant yn cael cyfrifoldeb dros blant eraill yn y cartref, na chyfrifoldebau i wneud yn iawn am unrhyw ddiffyg staff yn y cartref. Mae plant sy'n cael cyfrifoldeb dros dasgau penodol yn y cartref yn cael eu goruchwylio'n ddigonol gan y staff i sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn briodol, heb gam-drin y rhan honno (e.e. drwy fwlio eraill).
- 23.14 Mae'r trefniadau staffio ar gyfer salwch ac absenoldeb staff (gan gynnwys hyfforddiant) yn ddigonol i gadw at bolisi staffio'r cartref (fel y manylir arno yn y datganiad o ddiben).

- 23.15 Mae polisïau ac arferion recriwtio yn ceisio sicrhau bod y grwp staff sydd mewn cysylltiad beunyddiol â'r plant yn cynnwys staff o'r ddau gender ac yn cymryd i ystyriaeth gefndiroedd hiliol, diwylliannol ac ieithyddol y plant a'u hanableddau.
- 23.16 Os yw datganiad y cartref o'i ddiben yn ei gwneud yn glir fod y cartref yn defnyddio staff o un rhyw yn unig, mae canllawiau clir yn cael eu darparu a'u gweithredu ar sut y caiff y plant eu galluogi i gynnal perthnasoedd ag aelodau o'r rhyw arall.
- 23.17 Mae'r staff yn gwybod pa blant a pha oedolion sy'n cysgu yn y cartref bob nos.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

- Rheoliad 4 – datganiad o ddiben
- Rheoliad 11 – hybu lles
- Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant
- Rheoliad 27 – cyflogi staff
- Rheoliad 28 – cofnodion

## SAFON 24 – YMDDYGIAD STAFF

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn elwa drwy dderbyn gofal gan staff sy'n ymddwyn mewn modd cyfrifol a phriodol bob adeg.**

24.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y staff yn gweithredu fel modelau rôl ac yn ymdrechu i osod esiamp l dda i'r plant bob adeg.

23.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau'r canlynol ynghylch y staff:

- nad ydynt yn yfed alcohol yn y gwaith na chyn y gwaith.
- nad ydynt yn camddefnyddio unrhyw sylwedd sy'n amharu ar eu gallu i edrych ar ôl plant neu bobl ifanc, nac o dan ddylanwad unrhyw sylwedd o'r fath.
- nad ydynt yn ysmegu wrth edrych ar ôl plant yn y cartref nac at ddibenion y cartref.
- nad ydynt yn ysmegu ar safle'r cartref yng ngolwg y plant sy'n cael eu lletya yn y cartref.
- eu bod yn ymatal rhag rhegi yn y gweithle a rhag defnyddio iaith sy'n gallu tramgwyddo, boed yn rhywiaethol, yn hiliol neu'n wahaniaethol. Yn yr un modd ni ddylid cyfnewid jôcs o natur rywiaethol, hiliol neu wahaniaethol.
- eu bod yn ymwneud â phlant a chydweithwyr mewn dull priodol bob adeg.

### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 25 – staffio cartrefi plant

Rheoliad 26 – ffitrwydd y gweithwyr

## RHEDEG A RHEOLI'R GWASANAETH

### SAFON 25 - MONITRO GAN Y DARPARYDD COFRESTREDIG

#### Y CANLYNIAD

**Mae lles y plant yn y cartref yn cael ei hybu drwy fonitro rheolaidd gan y person sy'n rhedeg y cartref.**

- 25.1 Mae'r person sy'n rhedeg y cartref yn monitro lles y plant yn y cartref.
- 25.2 Os nad yw'r person sy'n rhedeg y cartref yn ei reoli o ddydd i ddydd, rhaid iddo ymweld â'r cartref o leiaf unwaith y mis i fonitro'r gofal a ddarperir. Cyn pen pythefnos ar ôl yr ymweliad, dylai'r ymwelydd gwblhau adroddiad ysgrifenedig ar sut mae'r cartref yn cael ei gynnal. Os mudiad yw'r corff sy'n rhedeg y cartref, mae aelod neu gynrychiolydd o'r corff hwnnw nad yw'n cael ei gyflogi yn y cartref ac sy'n bodloni gofynion rheoliad 32(2) yn cynnal yr ymweliadau hyn ac yn cyflwyno'r adroddiad.
- 25.3 Mae ymweliad yn cynnwys y canlynol:
- gwirio lòg dyddiol y cartref a'i gofnodion o gwynion
  - asesiad o gyflwr yr adeilad, dodrefn ac offer y cartref,
  - cyfle i unrhyw blentyn neu aelod staff sy'n dymuno cyfarfod â'r ymwelydd wneud hynny (yn breifat os dymunant).
- 25.4 Mae camau yn cael eu cymryd gan y person cofrestredig ar argymhellion neu faterion o bryder a godir yn yr adroddiadau am yr ymweliadau.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 32 – ymweliadau gan y darparydd cofrestredig

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## SAFON 26 - MONITRO GWEITHREDIAD Y CARTREF

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn elwa wrth fyw mewn awyrgylch lle mae'r adborth ar sut y mae'r cartref yn gweithredu yn cael ei gymryd o ddifrif.**

- 26:1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod y cartref yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth y mae'n ei gael ar sut y mae'n gweithredu.
- 26.2 Mae systemau ar waith ar gyfer monitro perfformiad y cartref yn erbyn ei ddatganiad o ddiben, ac ar gyfer adolygu'r datganiad yn rheolaidd, ac mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro yn unol â'r Rheoliadau.
- 26.3 Mae person cofrestredig yn monitro ac yn llofnodi cofnodion y cartref o leiaf unwaith y mis, er mwyn nodi unrhyw batrymau neu faterion y mae angen cymryd camau ynglyn â hwy. Mae'n cymryd camau i wella neu i addasu'r ddarpariaeth os bydd angen.
- 26:4 Mae camau yn cael eu cymryd os oes eu hangen mewn perthynas ag unrhyw grynodiad, tuedd neu batrwm yn y materion neu'r digwyddiadau a gofnodwyd er mwyn gwella diogelu a hybu lles y plant ac ansawdd y gofal yn y cartref.
- 26:5 Mae'r person cofrestredig yn ystyried y rhesymau am unrhyw enghreifftiau o ymwneud yr heddlu yn aml gyda phlant o'r cartref, unrhyw gyfran uchel o blant nad ydynt yn yr ysgol neu sydd wedi'u hatal neu eu gwahardd o'r ysgol, neu drosiant uchel ymhlith y staff. Mae unrhyw gamau dilynol sy'n angenrheidiol yn cael eu cymryd.
- 26.6 Mae'r person cofrestredig yn gallu dangos bod y cartref yn gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben, nad yw'r ystod o anghenion sydd i'w diwallu o dan y datganiad o ddiben yn ormodol yng ngoleuni'r ffordd y mae'r cartref yn gweithredu ar hyn o bryd, ac mai dim ond plant y gellir diwallu eu hanghenion sydd wedi'u hasesu o fewn diben y cartref y mae'r cartref yn eu derbyn.
- 26.7 Mae gan y darparydd cofrestredig gynllun datblygu ysgrifenedig ar gyfer dyfodol y cartref, naill ai'n nodi unrhyw newidiadau cynlluniedig yng ngweithrediadau neu adnoddau'r cartref, neu'n cadarnhau bod gweithrediadau ac adnoddau presennol y cartref i barhau. Dylai gynnwys gwerthusiad o weithrediadau ac adnoddau, dangos tystiolaeth o ymglymiad y rheolwr cofrestredig a chael ei adolygu'n flynyddol.
- 26.8 Dylai'r system sy'n ofynnol o dan reoliad 33(1) ddarparu bod copïau o adroddiadau ar arolygiadau gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar gael drwy drefniant gan y person cofrestredig i'r holl aelodau staff, i'r plant sy'n preswyllo yn y cartref, i rieni ac, os gofynnir amdanynt, i'r

awdurdodau sydd wedi lleoli'r plant presennol neu'r awdurdodau hynny sy'n ystyried lleoli plentyn yno.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd y gofal

Rheoliad 35 – y sefyllfa ariannol

## SAFON 27 - RHEOLI'R BUSNES

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn mwynhau sefydlogrwydd cartrefi sy'n cael eu rhedeg yn effeithlon.**

- 27.1 Mae gweinyddiaeth y cartref yn effeithlon ac mae'r cartref yn ariannol gadarn.
- 27.2 Mae gan y person cofrestredig y gallu angenrheidiol i gynllunio, cyllidebu a gweinyddu cyllid y cartref i sicrhau ei fod yn cael ei redeg ar sylfaen ariannol cadarn.
- 27.3 Mae gan reolwr y cartref:
- naill ai NVQ lefel 4 mewn Gofal wedi'i chael mewn maes sy'n ymwneud â gofal plant neu gymhwyster tebyg wedi'i ddyfarnu am gwrs a gymeradwyir gan Gyngor Gofal Cymru, neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol,
  - cymhwyster ar lefel 4 NVQ mewn Rheoli Gofal neu gymhwyster rheoli cyfatebol erbyn 1 Ebrill 2005, a
  - pum mlynedd o leiaf o brofiad o weithio mewn maes gofal plant preswyl, y mae dwy flynedd o leiaf ohonynt ar lefel uchel, a'r cyfan o fewn y deng mlynedd ddiwethaf.
- 27.4 Yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir yn 27.5, ni chaiff y rheolwr reoli mwy nag un cartref.
- 27.5 Caiff y rheolwr reoli mwy nag un cartref os bodlonir yr amodau canlynol:
- ni fwriedir i'r ddau gartref, yn unol â'u datganiadau o ddiben a'u meini prawf penodol ynglyn â derbyn, letya pobl ifanc sy'n herfeiddiol eu hymddygiad.
  - mae'r cynlluniau gofal i'r bobl ifanc sy'n cael eu derbyn yn gyson â datganiadau o ddiben a meini prawf derbyn y cartrefi.
  - nid yw nifer y plant sy'n cael eu lletya ym mhob cartref yn fwy na dau
  - mae unrhyw aelod o'r staff sydd wrth y llyw yn y naill gartref a'r llall o dan drefniant a wneir gan y rheolwr yn aelod staff parhaol sydd wedi cael NVQ lefel 3 mewn Gofal.
  - Mae'r ddau gartref y cofrestrwyd y rheolwr ar eu cyfer o fewn taith hwylus i'w gilydd – nid yw'r daith arferol rhyngddynt yn cymryd mwy na phymtheg munud.



- Mae asesiad risg llawn wedi'i gynnal ac mae'r person cofrestredig yn gallu dangos yn foddhaol nad yw'r trefniadau ar gyfer rheoli'r ddau gartref yn gosod unrhyw risgiau annerbyniol.
- 27.6 Mae disgrifiad swydd y rheolwr yn datgan yn glir ac yn ysgrifenedig gyfrifoldebau a dyletswyddau'r rheolwr o ran rheoli'r cartref, ac yn enwi'r person y mae'r rheolwr yn atebol iddo ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rheolwr yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Mae unrhyw newid o ran y person y mae yn atebol iddo i'w hysbysu'n ysgrifenedig i'r rheolwr.
- 27.7 Mae rheolwr y cartref yn arfer arweiniad effeithiol ar staff a gweithrediad y cartref fel bod y cartref yn cael ei drefnu, ei reoli a'i staffio mewn modd sy'n cyflwyno'r gofal plant gorau posibl.
- 27.8 Mae gan y cartref ddigon o gyllid i wireddu ei ddatganiad o'i ddiben ac i fodloni fel arall y rheoliadau, gofynion rheoliadol eraill, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn ac unrhyw amodau ar gofrestrriad y cartref.
- 27.9 Mae'r cyfrifon yn dangos bod y cartref yn hyfyw yn ariannol ac yn debyg o fod â digon o gyllid i barhau i gyflawni ei ddatganiad o ddiben am y 12 mis nesaf.
- 27.10 Mae'r holl amodau cofrestru sydd wedi'u gosod ar y cartref yn cael eu bodloni.
- 27.11 Mae'r rheolwr yn cymryd camau rhesymol i sicrhau perthnasoedd da gyda chymdogion a'r gymuned ehangach.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 8 – ffitrwydd y rheolwr  
 Rheoliad 11 – hybu lles  
 Rheoliad 35 – y sefyllfa ariannol

## PRYDERON, CWYNO AC AMDDIFFYN

### SAFON 28 – GWEITHDREFNAU CWYNO A CHYNRYCHIOLI

#### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn gwybod sut i wneud cynrychioliad neu gwyn os ydynt yn anhapus ar unrhyw agwedd o fyw yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny**

28.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod unrhyw gynrychioliad neu gwyn yn cael sylw yn ddi-oed a chaiff yr achwynydd wybodaeth gyson am eu hynt.

28.2 Mae gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gan y cartref sydd ar gael yn hwylus i'r staff ac i eraill sy'n gweithio yn y cartref, i'r plant ac, pan fo'n briodol, eu teuluoedd, pobl arwyddocaol eraill ac ymwelwyr annibynnol. Dylai pawb gael naill ai grynodedig ysgrifenedig addas o'r weithdrefn neu gopi o'r weithdrefn llawn wrth wneud cais amdani.

28.3 Mae gweithdrefn gwynion y cartref:

- yn cynnwys gwybodaeth ar sut i wneud cynrychioliadau neu gwynion;
- yn galluogi'r plant, y staff, aelodau'r teulu ac eraill sy'n ymwneud â phlant y cartref y tu allan i'r cartref i wneud cwynion neu gynrychioliadau mawr a mân;
- yn sicrhau nad oes cyfyngiad ar y materion y gellir cwyno amdanynt;
- yn pennu sut y bydd cynrychioliadau neu gwynion yn cael eu trafod;
- yn cynnwys cyfnod datrys anffurfiol;
- yn darparu gwybodaeth ar ddulliau eraill o gwyno (os yw'n priodol), yr hawl a'r modd i bob plentyn sy'n derbyn gofal ac sy'n cael ei letya yn y cartref i gael gafael ar unrhyw weithdrefn gwyno sydd gan yr awdurdod lleoli, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru;
- yn nodi trefniadau clir ar gyfer trafod unrhyw gwyn a wneir yn erbyn rheolwr y cartref;
- ar gael yn hwylus i blant anabl;

- yn galluogi pobl heblaw'r plentyn i wneud cwynion ar ran y plentyn, ar yr amod bod y plentyn yn cydsynio â hyn;
- yn darparu mynediad at eiriolaeth annibynnol;
- yn sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn dioddef gwahaniaethu, anfantais, atal gwasanaeth neu ostyngiad yn y gwasanaeth yn sgil gwneud cynrychioliadau neu gwynion; ac
- yn sicrhau nad yw unrhyw berson sy'n destun cwyn yn chwarae unrhyw ran wrth ei hystyried ac eithrio, os yw'r person cofrestredig o'r farn resymol ei fod yn briodol, yn y cyfnod anffurfiol yn unig.

28.4 Mae unrhyw gwyn neu gynrychioliad yn cael sylw o ddifrif ac yn ddi-oed.

28:5 Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant yn y weithdrefn gwynion, a honno'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- beth yw cynrychioliad neu gwyn;
- beth yw'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynrychioliad neu gwyn yn y cartref a sut y caiff ei chofnodi;
- i bwy y gwneir cynrychioliad neu gwyn y tu allan i'r cartref;
- pa weithdrefn sydd i'w dilyn os na chaiff cynrychioliad neu gwyn eu datrys yn brydlon drwy gyfrwng anffurfiol, gan gynnwys pwy y dylid ei hysbysu a chadw cofnodion;
- sut y gellir helpu'r plentyn wrth wneud cynrychioliad neu gwyn, gan gynnwys sefyllfaoedd pan fydd nam cyfathrebu gan y plentyn;
- y trefniadau ar gyfer cael gafael ar eiriolydd annibynnol.

28.6 Mae'r person cofrestredig yn cadw cofnod llawn o bob cwyn a chynrychioliad a wneir gan y plant, neu sy'n ymwneud â lles y plant, a sut yr ymdrinnir â hwy, gan gynnwys y canlyniad.

28.7 Mae'r person cofrestredig yn adolygu'r cofnodion yn rheolaidd i wneud yn siwr fod y weithdrefn gwynion yn gweithredu'n foddhaol, ac i ddod o hyd i batrymau cwyno a'r camau a gymerwyd ar y cwynion unigol. Mae'r person cofrestredig yn cymryd unrhyw gamau priodol yn sgil yr adolygiadau hyn mewn perthynas â pholisïau ac arferion y cartref, yn ogystal â chymryd unrhyw gamau pellach sy'n angenrheidiol mewn perthynas ag achosion unigol.

28.8 Hysbysir pob cwyn ynghylch atal corfforol neu gwynion sy'n ymwneud ag elfennau posibl o gam-drin emosiynol, corfforol neu rywiol neu esgeulustod i'r rheolwr amddiffyn plant a enwir yn unol â gweithdrefnau PAPYR yr awdurdod lleol y lleolir y cartref yn ei ardal.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 16 – trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

Rheoliad 24 – cynrychioliadau a chwynion

Rheoliad 27 – cyflogi staff

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## SAFON 29 - GWEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT A HYFFORDDIANT

### Y CANLYNIAD

**Mae lles plant yn cael ei hybu, mae plant yn cael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac mae ymateb priodol yn cael ei wneud i unrhyw honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod.**

- 29.1 Mae systemau ar waith sy'n anelu at sicrhau bod cam-drin ac esgeuluso plant yn y cartref yn cael ei atal, a bod ymateb priodol yn cael ei wneud i amheuon neu honiadau o gam-drin.
- 29.2 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod polisi amddiffyn plant ysgrifenedig sy'n gyson â "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant" ac yn gytûn â pholisïau a gweithdrefnau'r Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth (PAPYR) yn lleol.
- 29.3 Mae polisïau a systemau amddiffyn plant ar gael ac yn hysbys i'r holl staff (gan gynnwys staff is, staff atodol, staff gwirfoddol a staff asiantaethau) ac yn cael eu deall ganddynt.
- 29.4 Mae copïau o bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant y cartref a pholisïau a gweithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal (PAPYR) yn lleol yn cael eu cadw yn y cartref. Mae person cofrestredig y cartref yn sicrhau bod y staff wedi'u darllen, yn eu deall ac yn wybodus amdanynt ac wedi cael hyfforddiant priodol ar eu cymhwyso. Mae'r staff yn gallu cael gafael arnynt bob adeg.
- 29.5 Mae polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant y cartref yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
- 29.6 Mae'r gweithdrefnau yn unol â'r Rheoliadau, ac yn cael eu dilyn gan yr holl staff wrth ymateb i honiadau neu amheuon o gam-drin, naill ai gan y staff neu gan blant eraill yn y cartref, neu gan eraill. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys:
- y gofyniad y dylai staff neu eraill sy'n gweithio yn y cartref sy'n derbyn honiad o gam-drin, neu sy'n amau cam-drin, osgoi gofyn cwestiynau arweiniol neu roi gwarantau amhriodol ynghylch cyfrinachedd
  - y gofyniad i roi gwybod i'r heddlu a'r awdurdod lleoli neu i unrhyw berson arall a grybwyllir yn rheoliad 27(3) am unrhyw honiad neu amheuon o gam-drin.
  - cyfarwyddiadau i'r staff ynghylch y camau sydd i'w cymryd os cânt wybod am honiad neu amheuaeth o gam-drin sy'n ymwneud ag unrhyw aelod o'r staff, unrhyw ymwelydd i'r cartref, y rheolwr neu'r person sydd, ar y pryd, â gofal y cartref o ddydd i ddydd neu unrhyw berson arall.

- 29.7 Mae'r person cofrestredig wedi cydgysylltu â chyd-drefnydd amddiffyn plant yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol (neu uwchswyddog arall sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant) i ofyn am gyngor ar y gweithdrefnau a'r arferion lleol, ac wedi trafod sut mae'r arferion yn y cartref yn ymwneud â'r rhain o ran cadw plant yn ddiogel, ymateb i honiadau neu amheuan o gam-drin, dulliau rheoli a chymryd risgiau. Mae unrhyw wrthdrawiadau rhwng y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol a gweithdrefnau awdurdodau eraill sy'n lleoli plant wedi'u trafod hefyd ac wedi eu cysoni cyn bod y lleoli'n digwydd pryd bynnag y bydd yn bosibl.
- 29.8 Mae yna ganllawiau ysgrifenedig i'r staff sy'n egluro sut y bydd uwch aelodau staff y cartref yn sicrhau y bydd aelodau staff sy'n destun honiadau yn eu herbyn yn cael gweld gwybodaeth ac yn cael cymorth tra bydd ymchwiliad yn mynd yn ei flaen.
- 29.9 Mae'r canllawiau gweithdrefnol i'r staff yn dangos yn glir y systemau y mae eu hangen er mwyn amddiffyn plant a lleihau'r perygl o gam-drin tra bydd y plentyn yn byw yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar y canlynol:
- gwneud asesiad llawn o hanesion plant ac unrhyw brofiad o gam-drin gan gynnwys cam-drin gan gymheiriaid
  - adnabod ymddygiad rhywiol amhriodol gan blant
  - adnabod arwyddion o gamddefnyddio sylweddau
  - arsylwi ar gysylltiadau rhwng y plant a rhwng staff a phlant
  - goruchwyllo'r plant
  - goruchwyllo a chynorthwyo'r staff
  - adnabod ymwneud posibl plant â phuteinio neu ffurfiau eraill o ecsbloetio rhywiol
  - cyfrinachedd
  - cysylltiadau corfforol priodol ac amhriodol rhwng y staff a'r plant
  - amser un-i-un y staff gyda'r plant
  - gofal personol agos a gweithdrefnau ymyrrol
  - rhoi meddyginiaethau
- 29.10 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl staff, gan gynnwys y staff atodol, staff asiantaethau a gwirfoddolwyr, ynghylch atal camdriniaeth, adnabod camdriniaeth, ymdrin â datgeliadau neu amheuan o gamdriniaeth, a gweithdrefnau amddiffyn plant y cartref. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff newydd, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaethau, ac yn barhaus ar gyfer y grwp staff, yn unol â nodau ac amcanion y cartref.
- 29.11 Mae gan y person cofrestredig a'r staff gysylltiadau fel rhan o'r drefn ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant e.e. yr awdurdod

sy'n eu lleoli, ysgolion, ysbytai, ymarferwyr cyffredinol, etc., ac nid ydynt yn gweithio ar wahân iddynt.

29.12 Mae'r person cofrestredig yn dilyn unrhyw brotocolau rhyng-asiantaethol lleol ar atal puteinio ymhlith plant ac ymchwilio iddo.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 9 – y person cofrestredig –gofynion cyffredinol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 16 – trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

Rheoliad 27 – cyflogi staff

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## SAFON 30 - MYND I'R AFAEL Â BWLIO

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn cael eu hamddiffyn rhag eu bwlio ac maent yn elwa ar awyrgylch lle mae'n hysbys nad yw bwlio yn dderbyniol.**

- 30.1 Mae gan y person cofrestredig bolisi ar fynd i'r afael â bwlio, sy'n hysbys i'r plant a'r staff ac sy'n effeithiol yn ymarferol.
- 30.2 Mae'r polisi ar fynd i'r afael â bwlio yn cynnwys:
- diffiniad o fwlio (gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, seicolegol a geiriol);
  - bwlio gan y staff;
  - bwlio a all ddigwydd mewn mannau heblaw yn y cartref;
  - gwahanol fathau o fwlio, e.e. ar sail hil, rhyw, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol;
  - mesurau i atal bwlio ac i ymateb i fwlio a welir neu y cyflwynir adroddiad amdano;
  - hyfforddiant ar gyfer y staff mewn ymwybyddiaeth o fwlio a strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag ef.
- 30.2 Mae'r polisi hwn :
- ar gael ac yn hysbys i'r staff a'r plant;
  - yn cael ei weithredu, a'i fonitro ar gyfer effeithiolrwydd;
  - yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan staff a phlant;
  - yn cael ei ddiwygio yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y staff yn lleihau bwlio ac yn ymateb iddo yn effeithiol.
- 30.4 Mae plant sy'n cael eu bwlio yn cael cefnogaeth, a rhoddir canllawiau addas hefyd i blant a all fwlio eraill.
- 30.5 Mae'r person cofrestredig yn cynnal asesiadau risg yn rheolaidd, sy'n cael eu cofnodi at ddibenion iechyd a diogelwch, ar yr amserau, y lleoedd a'r amgylchiadau pan fydd risg bwlio, gan gynnwys bwlio sy'n gamdriniaeth gan blant eraill, ar ei uchaf, ac mae'n cymryd camau i leihau neu wrthweithio'r risg o fwlio pan fo'n ymarferol i wneud hynny.
- 30.6 Cyfeirir at y polisi ym mholisi amddiffyn plant y cartref ac mae croesgyfeirio yn y ddau.



Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## SAFON 31 - ABSENOLDEB PLENTYN HEB AWDURDOD

### Y CANLYNIAD

**Mae plant yn elwa ar weithdrefnau clir ynghylch bod yn absennol heb awdurdod ac yn cael eu hamddiffyn ganddynt ac yn cael ymateb cadarnhaol ar ôl dod yn ôl.**

- 31.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol, sydd yn unol â chanllawiau perthnasol, ar gael ac ar waith i ymdrin â phlant sy'n absennol o'r cartref heb gydsyniad.
- 31.2 Mae gweithdrefnau ysgrifenedig y cartref sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd pan fydd plentyn yn absennol heb awdurdod yn gyson â chanllawiau'r Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth (PAPYR) priodol ac unrhyw ganllawiau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eu dyroddi.
- 31.3 Dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig ymwneud â'r canlynol:
- chwilio am unrhyw blentyn sydd ar goll neu y credir ei fod wedi dianc o'r cartref
  - rhoi gwybod i'r heddlu, i'r awdurdod a leolodd y plentyn yn y cartref, ac i eraill (gan gynnwys y rhieni) fod plentyn ar goll, yn ddarostyngedig i ymgynghori â'r awdurdod a leolodd y plentyn
  - camau i sicrhau gwybodaeth am ble mae plentyn sydd ar goll a cheisio sicrhau diogelwch a lles y plentyn hwnnw
  - casglu a dychwelyd plant sydd ar goll pan ddeuir o hyd iddynt
  - y camau sydd i'w cymryd pan ddaw'r plentyn yn ôl
  - caniatáu ar gyfer unrhyw drefniadau unigol ar sail anghenion y plentyn (fel y cytunwyd arnynt yn ei gynllun lleoliad) a'i statws cyfreithiol (h.y. a ydyw'n cael ei letya'n wirfoddol neu o dan orchymyn gofal).
- 31.4 Mae'r weithdrefn yn rhoi sylw yn benodol i'r camau sydd i'w cymryd pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn absennol.
- 31.5 Ar ôl i'r plentyn ddychwelyd i'r cartref, mae'r person cofrestredig yn hysbysu gweithiwr cymdeithasol neu awdurdod lleoli'r plentyn ac yn cymryd pob cam rhesymol i alluogi'r gweithiwr cymdeithasol i gael gweld y plentyn. Os nad yw hyn yn bosibl, cofnodir y rhesymau ynghylch hynny a chytunir arnynt gyda'r awdurdodau lleol. Mae unrhyw resymau a roddir am yr absenoldeb yn cael eu hystyried mewn perthynas â sut mae'r plentyn yn derbyn gofal a chynllun lleoli'r plentyn, ac os yw'n briodol, cynllun gofal yr awdurdod sy'n ei leoli.
- 31.6 Mae unrhyw adroddiad gan blentyn neu amheuaeth ei fod wedi mynd ar goll oherwydd camdriniaeth yn y cartref yn cael ei gyfeirio ar unwaith

at yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol i gael ei ystyried o dan weithdrefnau Amddiffyn Plant yr Ardal, ac mae'r camau priodol yn cael eu cymryd i amddiffyn y plentyn o dan sylw a phlant eraill yn ôl yr angen.

- 31.7 Mae cofnodion ysgrifenedig yn cael eu gwneud o amgylchiadau pob digwyddiad pan fydd plentyn yn dianc, pob cam a gymerir gan y staff, amgylchiadau dychweliad y plentyn, unrhyw resymau a roddir gan y plentyn dros ddianc, ac unrhyw gamau a gymerir yng ngoleuni'r rhesymau hynny.
- 31.8 Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r mesurau cyfreithiol y gallant eu cymryd i atal plentyn rhag ymadael heb ganiatâd, gan gymryd canllawiau cyfredol y Cynulliad i ystyriaeth.
- 31.9 Pan fernir bod plentyn yn debygol o fynd ar goll, mae gan y person cofrestredig weithdrefnau cytûn i fonitro'r plentyn ac i leihau'r tebygolrwydd bod hyn yn digwydd. Gall y gweithdrefnau gynnwys dulliau ymddygiadol a/neu therapiwtig o newid ymddygiad y plentyn. Rhaid i unrhyw fesurau o'r fath gael eu defnyddio yn unol â'r hyn y cytunir arno yng nghynllun lleoliad y plentyn ac (os yw'n gymwys), yn ei gynllun gofal.
- 31.10 Mae'r person cofrestredig yn cadw cysylltiad rheolaidd â'r ysgolion y mae'r plant yn eu mynychu er mwyn monitro'u presenoldeb. Pan gredir bod plant yn arbennig o hawdd eu temtio i fod yn absennol yn fynych yn ystod y diwrnod ysgol neu'n dueddol i fod yn absennol felly, mae hyn yn golygu cysylltu â'r ysgol bob dydd.
- 31.11 Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol yn barhaus, neu os oes patrwm o absenoldebau sy'n peri pryder, mae'r person cofrestredig yn cychwyn adolygiad o'r cynllun lleoliad ac (os yw'n gymwys) o gynllun gofal y plentyn, ac adolygiad o'r arferion gofal perthnasol sy'n bodoli yn y cartref.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 16 – trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

Rheoliad 28 – cofnodion

## SAFON 32 - HYSBYSU YNGHYLCH DIGWYDDIADAU ARWYDDOCAOL

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn elwa drwy fod pob digwyddiad arwyddocaol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant sy'n cael eu lletya yn y cartref yn cael ei hysbysu gan reolwr y cartref i'r person priodol**

- 32.1 Mae gan y person cofrestredig weithdrefnau a systemau ysgrifenedig i sicrhau bod yr hysbysiadau sy'n ofynnol o dan reoliad 29 yn cael eu gwneud yn ddi-oed.
- 32.2 Mae'r person yn sicrhau bod rhieni ac awdurdod lleoli'r plentyn o dan sylw yn cael eu hysbysu'n ddi-oed am unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol sy'n effeithio ar les eu plentyn, ac eithrio os nad yw hysbysiad o'r fath naill ai'n rhesymol ymarferol, neu y byddai'n gosod lles y plentyn ar risg.
- 32.3 Mae cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw sy'n cynnwys manylion y camau a gymerir, a chanlyniad unrhyw gamau neu ymchwiliad sy'n dilyn digwyddiadau hysbysadwy.
- 32.4 Mae'r person cofrestredig at y dibenion hyn yn cydnabod bod salwch yn cynnwys salwch meddwl.
- 32.5 Dylai'r person cofrestredig sicrhau bod yr ymholiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n deillio o'r hysbysiad o dan reoliad 29.

### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 29 – digwyddiadau hysbysadwy  
Rheoliad 33 – adolygu ansawdd gofal

## YR AMGYLCHEDD FFISEGOL

### SAFON 33 - LLEOLIAD, DYLUNIAD A MAINT Y CARTREF

#### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn byw mewn cartrefi dymunol sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n darparu gofod digonol a digon o gyfleusterau i ddiwallu eu hanghenion.**

- 33.1 Mae'r cartref wedi'i leoli, wedi'i ddylunio ac o faint sy'n unol â'i ddatganiad o ddiben ac mae'n ateb anghenion y plant y mae'n eu lletya gan ddarparu amgylchedd sy'n gefnogol i ddatblygiad pob plentyn.
- 33.2 Mae'r cartref wedi'i leoli mewn man sy'n cymryd i ystyriaeth yr angen i bobl ifanc gael mynediad at gyfleusterau addysg, iechyd, cyflogaeth, hamdden a chludiant.
- 33.3 Os yw'r cartref yn lletya plant ag anableddau, darperir cynorthwyon ac addasiadau priodol ac unrhyw ddodrefn neu offer arbenigol sy'n angenrheidiol i'w galluogi i fyw bywyd mor normal â phosibl. Mae sylw arbennig yn cael ei roi i'r canlynol:
- mae'r llety'n sicrhau y caiff plant ag anableddau fynediad rhesymol i bob rhan o'r adeilad y gall plant eraill fynd iddynt
  - mae canllawiau a chynorthwyon symud eraill wedi'u lleoli'n briodol
  - mae'r lifftiau a'r grisiau wedi'u haddasu ac yn ddiogel i bob defnyddiwr
  - os oes gan blant nam ar eu golwg, dewisir lliwiau a goleuadau i gydbwyso'r golled golwg
  - os oes gan y plant nam ar y clyw, mae system dolen anwythol, addasiadau angenrheidiol i'r ffôn a'r teledu ac inswleiddiad rhag swm yn cael eu darparu
  - mae manau storio diogel ar gyfer offer a chadeiriau olwynion, gyda threfniadau priodol ar gyfer ailwefru batrïau cadeiriau olwynion.
  - dylid darparu rhybuddion argyfwng gweledol neu ddirgrydol.
- 33.4 Os yw cartref yn lletya plant anabl, mae therapydd galwedigaethol wedi asesu'r adeiladau a rhoddwyd sylw i'r argymhellion.
- 33.5 Dim ond mewn perthynas â phlentyn y darparwyd y cyfyngiad ar ei gyfer yn ei gynllun lleoli (a'i gynllun gofal os yw'n briodol) y defnyddir cyfyngiadau ffisegol ar symudiadau arferol o fewn y cartref (ee gatiâu grisiau, handlenni uchel ar y drysau) a defnyddir hwy'n unig pan fydd angen diogelu a hybu lles y plentyn hwnnw. Nid yw cyfyngiadau o'r

fath ar un plentyn yn gosod cyfyngiadau tebyg ar blant eraill os nad yw hynny'n angenrheidiol.

- 33.6 Nid oes unrhyw risgiau yn cael eu gosod i ddiogelwch a lles y plant sy'n cael eu lletya drwy ofynion neu argymhellion ynghylch y cartref gan unrhyw un o'r cyrff canlynol sydd heb eu gweithredu:
- yr awdurdod cynllunio
  - yr awdurdod rheoli adeiladu
  - y gwasanaeth tân
  - yr awdurdod iechyd amgylchedd
  - Estyn
- 33.7 Mae dyluniad, cynllun a defnydd y llety yn golygu nad yw gofal a phreifatrwydd unigol y plant yn cael eu cyfaddawdu.
- 33.8 Nid yw safle'r cartref yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'r cartref, sy'n cyfaddawdu ar ofal y plant yn y cartref neu'n effeithio'n andwyol arno.
- 33.9 Nid yw safle'r cartref wedi cael ei farcio mewn unrhyw ffordd i'w ddynodi fel cartref plant.
- 33.10 Mae rhagofalon effeithiol, a wnaed wrth ymgynghori â'r plant a'r staff, yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cartref yn ddiogel rhag i bobl di-awdurdod fynd yno, heb gyfaddawdu ar ofal y plant yn y cartref na chael effaith andwyol arno.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 12 – cynllun lleoliad y plentyn

Rheoliad 23 – peryglon a diogelwch

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd

## SAFON 34 - LLETY

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn mwynhau llety cartrefol, sydd wedi'i addurno, wedi'i ddodrefnu ac wedi'i gynnal i safon uchel, ac yn darparu cyfleusterau digonol at eu defnydd.**

- 34.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod cyfleusterau cartrefol digonol o ansawdd dda i'r rhai sy'n byw ar y safle, sy'n gyson â datganiad o ddiben y cartref, a bod y cartref yn cael ei gadw mewn cyflwr da drwyddo draw.
- 34.2 Mae'r cartref mewn eiddo o dan berchenogaeth y person cofrestredig, neu'n cael ei ddal o dan ddeiliadaeth o fath a fydd yn darparu gofal sy'n gyson â datganiad y cartref o'i ddiben a chynlluniau lleoli'r plant.
- 34.3 Mae'r cartref wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon sy'n creu amgylchedd domestig dymunol, sy'n briodol ar gyfer nifer, cymysgedd gender, anabledd, oedran, diwylliant a chefnidir ethnig y plant sy'n cael eu lletya.
- 34.4 Mae'r tu mewn i'r cartref a'r tu allan iddo yn cael eu cadw mewn cyflwr strwythurol ac addurnol da. Mae yna raglen foddhaol ar gyfer cynnal a chadw a thrwsio'r adeilad, y dodrefn a'r offer, ac mae unrhyw ddifrod yn cael ei gywiro'n ddi-oed. Mae'r gerddi a/neu'r manau chwarae caled ac unrhyw offer chwarae sydd wedi'i angori yn y ddaear yn cael eu cadw'n dda ac maent yn ddiogel.
- 34.5 Cedwir yr adeiladau, y dodrefn a'r dillad gwely yn dderbyniol lân.
- 34.6 Mae yna wahaniaeth rhwng manau preifat a manau cymunedol sy'n cael eu rhannu yn y cartref.
- 34.7 Yn ddarostyngedig i 34.10 a gweddill y paragraff hwn, darperir ystafelloedd gwely sengl i bob plentyn. Ni chytunir bod plant yn cael rhannu ystafell wely heblaw mewn achosion eithriadol, sy'n ymwneud â phlant penodol a lle bydd hyn yn hybu lles y plant a bod darpariaeth ar ei gyfer yng nghynllun lleoliad y plentyn. Lle bynnag y mae'n ymarferol gwneir unrhyw drefniant felly drwy gytundeb y plentyn ac fel arall mae'n unol â rheoliad 30(8).
- 34.8 Yn ystafell wely pob plentyn mae:
- gwely a dillad gwely addas,
  - sedd a bwrdd gwaith sy'n addas ar gyfer ysgrifennu ac arlunio,
  - lle i storio dillad,

- lle diogel o dan glo neu fel arall ar gyfer eiddo personol,
  - golau naturiol gyda llenni neu fleindiau a golau artiffisial sy'n ddigonol ar gyfer darllen,
  - carped neu orchudd priodol arall ar y llawr, a
  - gwres.
- 34.9 Mae ystafell wely pob plentyn o faint digonol i fod yn gysurus i'r plentyn ac i ganiatáu rhyddid i symud a phreifatrwydd, gan gymryd i ystyriaeth y ffordd y gosodwyd y dodrefn, oedran y plentyn ac unrhyw anghenion penodol gan y plentyn (er enghraifft yr angen i gael mynediad i gadair olwynion a lle i droi a lle ar gyfer gofalwyr o boptu'r gwely).
- 34.10 Mewn ysgol sydd yn gartref cyn belled â phosibl rhoddir dewis o ystafell sengl i blant sy'n cydymffurfio â safon 34.8. Ar ôl Ebrill 2003 ni fydd mwy na phedwar plentyn mewn ystafell wely. Mae gan y plant wely a dillad gwely addas, lle i eistedd, lle i storio dillad, lle diogel o dan glo neu fel arall i storio eiddo personol, llenni neu orchudd arall ar y ffenestri, digon o olau i ddarllen, carped neu orchudd priodol arall ar y llawr, a gwres. Nid yw gwelyau bync yn cael eu defnyddio ar gyfer plant 13 oed neu drosodd oni bai eu bod yn gofyn amdanynt, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer plant y byddent yn risg diogelwch iddynt. Os defnyddir gwely bync, rhaid bod y gofod llawr ar gael a fyddai ar gael pe defnyddid dau wely ar wahân yn hytrach na gwely bync. Mae unrhyw gais gan blentyn i newid ei ystafell wely i'w ystyried ar unwaith ac os yw'n ymarferol dylid cytuno ar y cais.
- 34.11 Mae'r person cofrestredig yn cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o ymddygiad lle gall camdriniaeth ddigwydd cyn cytuno bod plant yn cael rhannu ystafelloedd gwely.
- 34.12 Darperir system alw brys gyda manau galw wedi'u lleoli'n briodol sydd ar gael yn hwylus i blant mewn argyfwng (ee cortynnau tynnu y gellir eu cyrraedd ar ôl cwmpo), os yw hynny'n angenrheidiol oherwydd anabledau'r plant neu eu hanghenion eraill. Mae'r system yn weithredol ac yn effeithiol wrth alw am gymorth prydlon y staff.
- 34.13 Pan fydd angen hynny ar y plant, mae'r cartref yn darparu cyfarpar digonol a phriodol megis lifftiau, offer codi a chadeiriau olwynion, ac mae'r cyfarpar hwnnw'n cael ei gynnal-a'i-gadw'n rheolaidd. Rhaid i ystafelloedd a ddefnyddir i letya plant anabl, os yw'n berthnasol, gael digon o le i gadeiriau olwynion a chyfarpar megis hoistiau fedru symud yn rhwydd ynddynt.
- 34.14 Mae'r plant yn cael gosod stamp personol ar eu hystafell wely ac yn cael eu hannog i wneud.
- 34.15 Darperir un neu fwy o ffonau i gael eu defnyddio gan y plant yn unig yn y cartref yn breifat. Mae'r rhain yn cynnig lefel dderbyniol o breifatrwydd ar gyfer galwadau personol, ac yn cael eu cadw mewn trefn, ac mae unrhyw ddifrod neu fethiant yn cael ei drwsio yn ddi-oed. Os gwaherddir neu os cyfyngir ar fynediad atynt yn unol â'r



Rheoliadau, dylid gwneud trefniadau amgen ar gyfer cysylltu â theulu a ffrindiau.

- 34.16 Mae'r cyfleusterau i'r plant astudio yn y cartref yn dawel, gyda digon o seddi a lle wrth ddesg neu fwrdd, digon o olau, digon o le i storio llyfrau a deunyddiau astudio, ac maent ar gael pan fydd eu hangen at ddibenion astudio.
- 34.17 Mae yna gyfleusterau i'r plant ddilyn eu hobiau personol yn y cartref, gyda digon o ofod storio diogel i gadw deunyddiau ac offer yn ddiogel.
- 34.18 Mae'r plant yn cael cyfle i leisio barn am addurniadau cyffredinol, dodrefn a chyflwr y cartref os dymunant.
- 34.19 Mae yna ystafelloedd lle gall y plant gyfarfod yn breifat ag ymwelwyr a lle ar gyfer gweithgareddau preifat, chwarae a hamdden nad ydynt yn effeithio ar weithgareddau arferol plant eraill.
- 34.20 Nid yw ystafelloedd i'r staff gysgu-i-mewn yn rhan o'r man byw cymunedol, ac maent wedi'u lleoli yn agos i ystafelloedd gwely'r plant er mwyn ymateb i anghenion y plant yn ystod y nos. Os oes mwy nag un aelod o'r staff yn cysgu i mewn ar yr un noson, mae yna ystafelloedd cysgu i mewn ar wahân.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 11 – hybu lles

Rheoliad 15 – cysylltiadau a'r cyfle i gyfathrebu

Rheoliad 23 – peryglon a diogelwch

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd

## SAFON 35 - YSTAFELLOEDD YMOLCHI, CAWODYDD A THOILEDAU

### Y CANLYNIAD

**Mae preifatrwydd y plant yn cael ei barchu pan fyddant yn defnyddio'r ystafell ymolchi, y gawod neu'r toiled.**

- 35.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod nifer a safon y baddonau, y cawodydd a'r toiledau yn ddigonol i ddiwallu anghenion y plant.
- 35.2 Mae yna un toiled o leiaf i bob pum person (y plant sy'n cael eu lletya a'r staff sy'n bresennol fer arfer), gyda darpariaeth gerllaw i olchi a sychu dwylo.
- 35.3 Mae baddonau a chawodydd ar gael i'r plant eu defnyddio yn ôl eu hanghenion, gydag o leiaf un baddon neu gawod i bob pump o blant sy'n cael eu lletya. Ni all toiled sydd mewn ystafell ymolchi neu ystafell gawod fod yr unig doiled mewn cartref.
- 35.4 Mae'r ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r toiledau wedi'u lleoli ac wedi'u dylunio i gymryd i ystyriaeth anghenion y plant o ran preifatrwydd, urddas a diogelwch ac unrhyw anabledau sydd ganddynt, ac maent yn hwylus ar gyfer y mannau cysgu a'r mannau hamdden yn y cartref. Darperir cawodydd nad ydynt mewn ystafelloedd unigol mewn ciwbiglau unigol neu gyda llenni unigol llawn ar gyfer preifatrwydd.
- 35.5 Mae cyfleusterau digonol a phreifat i gael gwared ar damponau a thyweli misglwyf.
- 35.6 Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn hygyrch i blant anabl yn unol â datganiad y cartref o'i ddiben. Mae plant anabl y mae angen cymorth arnynt yn ei gael mewn modd sy'n gwneud yn fawr o breifatrwydd ac urddas.
- 35.7 Os yw'r staff yn cael defnyddio'r un cyfleusterau â'r plant, mae dealltwriaeth glir na chânt eu defnyddio pan fydd plant yn bresennol.
- 35.8 Ni chaiff staff fod yn bresennol mewn cyfleusterau baddon, toiled neu gawod pan fydd plentyn yn eu defnyddio oni bai mai'r rheswm am eu presenoldeb yw ei bod yn angenrheidiol i roi cymorth personol neu ddiogelu lles y plentyn.
- 35.9 Mae'r staff, nid y plant, yn gallu agor y drysau i'r ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r toiledau o'r tu allan mewn argyfwng.
- 35.10 Mae'r dwr poeth sydd ar gael i blant o dan wyth oed, neu i blant ag anabledau sy'n golygu eu bod mewn perygl os bydd dwr yn rhy boeth,

yn cael ei gadw ar dymheredd nad yw'n uwch na 43 gradd canradd wrth y tapiau a'r allfeydd eraill sydd yn hygyrch iddynt.

35.11 Mae cyflenwadau dwr poeth ac oer yn ddigonol ar gyfer y lefelau arferol o ddefnydd gan blant a staff.

35.12 Mae'r safonau uchod yn gymwys i ysgolion sy'n gartrefi plant ac eithrio:

- mewn unedau preswyl bechgyn, gellir amnewid wrinalau yn lle toiledau hyd at y pwynt y byddai unrhyw amnewid pellach yn gostwng nifer y toiledau i lai na thraean nifer y toiledau y cyfeirir atynt yn 35.2.
- dylai fod lleiafswm o un baddon neu gawod ar gyfer pob saith plentyn sy'n cael ei letya, ond cymhareb uwch lle mae anghenion y plant yn gofyn am hynny.

#### Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 4 – datganiad o ddiben

Rheoliad 30 – ffitrwydd safleoedd

## SAFON 36 - IECHYD, DIOGELWCH A SICRWYDD

### Y CANLYNIAD

**Mae'r plant yn byw mewn cartrefi sy'n darparu diogelwch a sicrwydd ffisegol.**

- 36.1 Mae'r person cofrestredig yn cymryd camau positif i gadw'r plant, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel rhag perygl tân a pheryglon eraill.
- 36.2 Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal sy'n nodi peryglon, yn amcangyfrif lefel y risg i iechyd, diogelwch neu les o'r peryglon a welir, ac yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i leihau'r risgiau i lefel dderbyniol lle bo'n ymarferol ac i osgoi risgiau diangen neu afresymol. Maent yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u hadolygu'n rheolaidd.
- 36.3 Mae asesiadau risg o'r fath yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r canlynol:
- cerbydau, safle, offer a thiroedd y cartref,
  - gweithgareddau hysbys a gweithgareddau tebygol y plant (sef gweithgareddau a ganiateir a rhai na chaniateir mohonynt),
  - y potensial ar gyfer hunan niweidio, bwlio a cham-drin yn y cartref neu'r tu allan iddo, ac
  - effaith derbyniadau i'r cartref mewn argyfwng ar gyfer y plentyn a dderbynnir a'r grwp presennol o blant.
- 36.4 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod pob cerbyd a ddefnyddir i gludo plant, gan gynnwys cerbydau sy'n perthyn i aelodau o'r staff, wedi cael eu trethu a'u hyswirio ar gyfer eu dibenion, bod yna dystysgrifau prawf cyfredol mewn perthynas â hwy, a'u bod yn cael eu cynnal-a'u-cadw'n dda. Rhaid i gartrefi sy'n lletya plant anabl gael cerbydau sydd wedi'u haddasu'n briodol.
- 36.5 Mae'r person cofrestredig yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r modd y gweithredir y camau a nodwyd yn sgil yr asesiadau risg a gynhaliwyd a pha mor effeithiol yw'r camau hynny.
- 36.6 Mae'r person cofrestredig wedi cynllunio ymatebion i ystod o argyfyngau y gellir eu rhagweld (e.e. brigiadau afiechyd, tanau, honiadau neu gwynion, damweiniau sylweddol, prinderau staff, a phroblemau rheoli o fewn y cartref neu y tu allan iddo), ac mae unrhyw ddigwyddiadau neu argyfyngau pwysig yn cael eu rheoli'n foddhaol.
- 36.7 Mae cyfarpar nwy yn cael ei archwilio'n flynyddol o leiaf. Mae cyfarpar ac offer trydan yn cael ei archwilio bob tair blynedd o leiaf. Mae bwyleri'n cael eu cynnal-a'u-cadw yn flynyddol.

- 36.8 Mae unrhyw argymhelliad gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol lleol ar gyfer storio a pharatoi bwyd yn y cartref yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan yr awdurdod.
- 36.9 Nid yw systemau monitro drwy wrando neu wyllo na systemau monitro electronig yn cael eu defnyddio gan y cartref oni bai:
- bod angen penodol amdanynt ar y pryd o fewn y cynllun lleoliad ar gyfer y plentyn unigol o dan sylw,
  - eu bod wedi'u cymeradwyo'n benodol gan yr awdurdod sy'n lleoli'r plentyn hwnnw, a/neu
  - bod llys wedi gofyn amdanynt yn benodol, ac
  - eu bod wedi'u nodi yn Natganiad y Cartref o'i Ddiben.
- 36.10 Dim ond at ddiben diogelu a hybu lles y plentyn neu blant eraill yn y cartref y defnyddir offer o'r fath, gan sicrhau eu bod yn gwbl hysbys i'r plentyn hwnnw ac unrhyw blant eraill y maent yn effeithio arnynt.
- 36.11 Mae'r plant a'r staff yn gwybod y gweithdrefnau ar gyfer gwacáu'r cartref mewn argyfwng, gan gynnwys y rhai sydd i'w defnyddio yn y nos, os ceir tân.
- 36.12 Mae'r person cofrestredig yn gweithredu gofynion yr Awdurdod Tân lleol, yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r canlynol yn ddarostyngedig i unrhyw drefniadau lleol y cytunwyd arnynt:
- mae pedwar o leiaf o ymarferion tân, sy'n cynnwys mudo'r staff a'r plant o'r adeilad ac ymarferion tân a gynhelir yn y nos, yn cael eu cynnal mewn cyfnod o 12 mis, ac yn cael eu cofnodi;
  - os yw'r cartref yn lletya plant anabl, dylai'r ymarferion tân gynnwys eu mudo;
  - mae yna brofion rheolaidd ar y goleuadau argyfwng, y larymau tân a'r offer ymladd tân;
  - mae unrhyw ddiffyg a nodir mewn ymarferion, profion neu ymweliadau gan y swyddog diogelwch tân yn cael ei nodi, a chymerir camau yn ôl yr angen i gywiro'r diffyg;
  - ymgynghorir â'r Awdurdod Tân lleol am fesurau rhagofalon tân, ac ymgynghorir ymhellach ag ef pa bryd bynnag y mae unrhyw estyniad arwyddocaol, newid defnydd neu addasiad yn cael ei wneud i'r safle.
- 36.13 Mae'r darparrydd cofrestredig yn sicrhau bod gan y cartref yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Atebolrwydd Cyflogeion hyd at leiafswm gwerth o £5 miliwn. Mae tystysgrifau yswiriant yn pennu enw a chyfeiriad cartref penodol.
- 36.14 Os yw'r cartref yn defnyddio dyfeisiadau ac offer meddygol, neu offer ar gyfer plant anabl (ee hoistiau, lifftiau, cadeiriau olwynion), mae

trefniadau gan y cartref i ymateb i hysbysiadau peryglon a hysbysiadau eraill perthnasol oddi wrth yr Asiantaeth Dyfeisiadau Meddygol.

36.15 Mae lleoliad a dyluniad meysydd parcio ceir a mynedfeydd ceir yn y cartref yn lleiafu'r risg i blant oddi wrth gerbydau sy'n symud.

Y gofynion rheoliadol perthnasol

Rheoliad 20 – anghenion iechyd plant

Rheoliad 23 – peryglon a diogelwch

Rheoliad 31 – rhagofalon tân

## DARPARIAETHAU ARBENIGOL

### SAFON 37 - LLETY CADARN A LLOCHESI

#### Y CANLYNIAD

**Mae plant sy'n byw mewn unedau cadarn neu lochesi yn cael yr un mesurau i ddiogelu a hybu eu lles ag y mae plant mewn cartrefi eraill i blant yn eu cael.**

- 37.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau fod y plant sy'n preswyllo mewn unedau cadarn neu loches yn cael yr un gwasanaethau gofal ag y mae plant mewn cartrefi eraill i blant yn eu cael, heblaw am y mesurau sy'n angenrheidiol ar gyfer statws y cartref fel uned gadarn neu loches.
- 37.2 Mae plant mewn llety cadarn o fewn cartref yn derbyn gofal yn unol â'r Rheoliadau, gan gymryd i ystyriaeth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn, gyda'r addasiadau hynny yn unig sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau bod y cartref yn un cadarn.
- 37.3 Mae plant mewn cartrefi sy'n llochesi a gymeradwywyd o dan Ddeddf Plant 1989 yn derbyn gofal yn unol â'r Rheoliadau, gan gymryd i ystyriaeth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn, gyda'r addasiadau hynny yn unig sy'n hanfodol yn y cartref o dan sylw o ganlyniad i'w statws fel lloches.





## ATODIAD 1 – SAFON 21

### MATERION POLISI SYDD I'W CYNNWYS MEWN CANLLAWIAU SYDD AR GAEL I'R STAFF

- 1 derbyn plant a'u croesawu;
- 2 dulliau gofalu a rheoli;
- 3 sancsiynau a ganiateir;
- 4 defnyddio ataliadau;
- 5 cofnodi achosion a'r cyfle i weld cofnodion;
- 6 cynllunio gofal a lleoliadau;
- 7 defnyddio cytundeb lleoliad pob plentyn;
- 8 mynd i'r afael â bwlio;
- 9 cadw llyfrau lög a dyddiaduron;
- 10 cyfrinachedd;
- 11 gweinyddu cyllid (arian mân) a diogelwch;
- 12 trwsio a chynnal-a-chadw
- 13 rhagofalon tân a gweithdrefnau argyfwng;
- 14 mynd i'r afael â risgiau a nodir drwy asesiadau risg y cartref;
- 15 i ba raddau y gall y cyfan neu ran o'r safle gael eu cloi fel mesur diogelwch;
- 16 y polisi diogelwch;
- 17 amddiffyn plant;
- 18 trefniadau ar gyfer rheoli a fetio ymwelwyr yn y cartref;
- 19 ymwybyddiaeth HIV/AIDS, cyfrinachedd a rheoli heintiau;
- 20 ymateb i honiadau neu amheuon o gam-drin;
- 21 trin plant sydd wedi'u cam-drin;
- 22 trefnu'r pontio rhwng shifftiau;
- 23 cysgu i mewn, goruchwyllo amser gwely a goruchwyllo'r nos;
- 24 cysylltiadau corfforol â'r plant;
- 25 treulio amser ar eich pen eich hun gydag un plentyn;
- 26 arferion gofal tuag at blant o'r rhyw arall;
- 27 anghenion gofal penodol plant o grwpiau ethnig lleiafrifol;
- 28 arferion yn y cartref i fynd i'r afael â hiliaeth;
- 29 gweithdrefnau disgyblu a chwyno y staff;
- 30 awdurdod dirprwyedig a hysbysiadau i'r uwch-staff;
- 31 lleoliadau;
- 32 adolygiadau;
- 33 ymdrin ag ymosodgarwch a thrais;
- 34 cymryd risgiau;
- 35 ymdrin â rhywioldeb a pherthnasoedd personol;
- 36 gweithio gyda rhieni/gofalwyr;
- 37 Cymorth Cyntaf a rhoi a storio meddyginiaethau;
- 38 y gweithdrefnau cwyno a chyflwyno sylwadau;
- 39 y polisi ysmegu;
- 40 y polisi alcohol;
- 41 camddefnyddio sylweddau;
- 42 rhoi a derbyn rhoddion;
- 43 adegau pan fydd staff yn chwythu'r chwiban;

- 44 mynediad gan blant at eiriolaeth a rôl Comisiynydd Plant Cymru;
- 45 ymddygiad staff.

## ATODIAD 2

### RHAGLENNI HYFFORDDIANT I'R STAFF

- 1 datblygiad normal ac annormal plant;
- 2 medrau sylfaenol gofal plant preswyl a gwaith tîm ;
- 3 dulliau gofal plant penodol a'r medrau sy'n briodol ar gyfer diben a swyddogaeth y cartref;
- 4 defnyddio dulliau rheoli positif a phriodol dros blant er eu lles eu hunain ac er mwyn amddiffyn eraill;
- 5 y mesurau disgyblu a ganiateir ac a waherddir;
- 6 defnyddio ataliadau;
- 7 amddiffyn plant;
- 8 materion cydraddoldeb o ran hil, ethnigrwydd, crefydd a diwylliant;
- 9 ymdrin â rhywioldeb;
- 10 addysg iechyd sy'n berthnasol i blant sy'n tyfu, gan gynnwys deiet, maethiad, tybaco a chamddefnyddio sylweddau;
- 11 goblygiadau HIV ac AIDS wrth ofalu am blant;
- 12 cyfathrebu â phlant, gan gynnwys plant ag anableddau;
- 13 iechyd a diogelwch yn y gwaith, gan gynnwys hylendid bwyd a diogelwch gyda meddyginiaethau;
- 14 rhagofalon tân;
- 15 cymorth Cyntaf;
- 16 *deddf Plant 1989* a deddfwriaeth gysylltiedig arall;
- 17 darparu gweithgareddau pwrpasol a difyr fel rhan o brofiad positif o ofal;
- 18 goruchwylio'r staff [ar gyfer y staff sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio];
- 19 technegau cyfweld [ar gyfer y staff sydd â chyfrifoldebau dros recriwtio];
- 20 gweithdrefnau ar gyfer cwyno a chyflwyno sylwadau;
- 21 gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn;
- 22 dulliau, gwybodaeth a medrau gofal plant penodol ar gyfer eu swyddogaethau yn y cartref;
- 23 gweithio gyda theuluoedd;
- 24 trafod â llaw ac asesiad risg cysylltiedig;
- 25 cofnodi gwybodaeth mewn ffordd bositif;
- 26 cwnsela;
- 27 addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.



## ATODIAD 3

### LLYFRYDDIAETH

Berridge, D a Brodie, I (1998) *Children's Homes Revisited*. Jessica Kingsley.

Brown, E. Bullock, R. Hobson, C a Little, M (1998) *Making Residential Care Work*. Ashgate.

Burgner, T (1996) *Regulation and Inspection of Social Services*. Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig.

Y Cyngor dros Blant Anabl a'r Adran Iechyd (1998) *Disabled Children: Directions for their Future Care*. Adran Gyhoeddiadau'r Adran Iechyd.

Farmer, E a Pollock, S (1998) *Sexually Abused and Abusing Children in Substitute Care*.

*Data Protection Act 1998*. Gwasg Ei Mawrhydi.

Yr Adran Iechyd (1991) *The Children Act 1989: Guidance and Regulations. Volume 4: Residential Care*. Gwasg Ei Mawrhydi.

Yr Adran Iechyd (1994) *Standards for Residential Child Care Services: A Handbook for Social Services Managers and Inspectors, Users of Services and their Families*. Gwasg Ei Mawrhydi.

Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig (1995) *Moving Forward: A Consultation Document on the Regulation and Inspection of Social Services*. Yr Adran.

Yr Adran Iechyd (1998) *Caring for Children Away from Home: Messages from Research*. Wiley.

Yr Adran Iechyd (1998) *Modernising Social Services: Promoting Independence, Improving Protection, Raising Standards*. Y Llyfrfa.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Gweithio Gyda'n Gilydd I Ddiogelu Plant: canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant*. Y Llyfrfa.

Yr Adran Iechyd (1999) *Education of Young People in Public Care*.

Yr Adran Iechyd (2000) *Promoting the Health of Looked After Children: A Guidance to Healthcare Planning, Assessment and Monitoring*.

*Disability Discrimination Act 1995*. Y Llyfrfa.

Fever, F (1994) *Who Cares? Memories of a Childhood in Barnardo's*. Warner.

Fletcher, B (1993) *Not Just a Name: The Views of Young People in Foster and*

*Residential Care. Cyngor Cenedlaethol y Defnyddwyr.*

First Key (1996) *Standards in Leaving Care: Report of the National Working Group.* First Key.

Growney, T (1998) *Sometimes You've Got to Shout to Be Heard: Stories from Young People in Care about getting Heard, using Advocates and making Complaints.* Llais dros y Plentyn mewn Gofal.

Hills, D a Child, C (1998) *Leadership in Residential Child Care. Evaluating Qualification Training.* Wiley.

*Human Rights Act 1998.*

Lyon, C. (1994) *Legal issues arising from the care and control of children with learning disabilities who also present severe challenging behaviour: A Guide for Parents and Carers.* Y Sefydliad Iechyd Meddwl.

Grwp Gwasanaethau Plant Arolygwyr Llundain (1997) *Quality Care for Children: Registration and Inspection Standards for Residential Children's Homes.* Canolfan Ymchwil Llundain.

Mental Health Foundation (1997) *Don't Forget Us: Children with learning disabilities and severe challenging behaviour. Report of a committee set up by the Mental Health Foundation: Chair: Russell, P.* Y Sefydliad Iechyd Meddwl.

Ministerial Task Force on Children's Safeguards (1998) *The Government's Response to the Children's Safeguard Review.* Y Llyfrfa.

Morgan, R (1999) *National Boarding Standards* (drafft).

Morris, J. (1998) *Still Missing? Volume 1: The Experience of Disabled Children and Young People Living Away from their Families.* Ymddiriedolaeth *Who Cares?*

Morris, J. *Still Missing? Volume 11: Disabled Children and the Children Act.* Ymddiriedolaeth *Who Cares?*

Y Fforwm Preswyl. (1998) *Training for Social Care: Achieving Standards for the Undervalued Service.* Y Fforwm Preswyl.

Riddel, M (1996) *The Cornflake Kid.* Cyhoeddiadau Partnership.

Robinson, C. Weston, C. a Minkes, J. (1995) *Assessing Quality Services to Disabled Children under the Children Act 1989,* Norah Fry Research Centre, Prifysgol Bryste.

Russell, P. (1996) *Positive Choices: Services for Disabled Children Living Away from Home,* Biwro Genedlaethol y Plant.

Shaw, C (1998) *Remember My Messages: The Experiences and Views of 2000*

*Children in Public Care in the UK. Ymddiriedolaeth Who Cares?*

Sinclair, I a Gibbs, I. (1998) *Children's Homes a Study in Diversity*. Wiley.

Tasglu dros Ofal Preswyl Plant (1995) *Code of Practice for the Employment of Residential Child Care Workers*.

*The Protection of Children Act 1999*.

Utting, W (1997) *People Like Us: Report of the Review of the Safeguards for Children Living Away from Home*. Y Llyfrfa.

Y Cenhedloedd Unedig (1989) *The Conventions of the Rights of the Child*. UNICEF.

Warner, N (1992) *Choosing with Care: The Report of the Committee of the Inquiry into the Selection, Development and Management of Staff in Children's Homes*. Gwasg Ei Mawrhydi.

Waterhouse, R. ac eraill (2000) *Ar goll mewn gofal: adroddiad y Tribiwnlys Ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn hen ardaloedd Cyngor Sir Gwynedd a Chlwyd er 1974*. Y Llyfrfa.

Whitaker, D, Archer, L a Hicks, L (1998) *Working in Children's Homes: Challenges and Complexities*. Wiley.

Ymddiriedolaeth *Who Cares?* (2000) *Report of Consultation Group Discussions with Children and Young People in Residential and Foster Care* (drafft).

Ymchwilwyr Ifanc (1998) *Young Opinions Great Ideas*. Biwro Genedlaethol y Plant.

